# Tystiolaeth CLILC

26 Medi 2025

## Pwyllgor Cyllid: Craffu ar Gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27

Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Llais Cynghorau Cymru**
Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol sy'n ceisio rhoi llais cryf i lywodraeth leol ar lefel genedlaethol.

Rydym yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru.

Ein haelodau yw'r 22 o Gynghorau yng Nghymru ac mae'r tri awdurdod tân ac achub ac awdurdodau'r 3 pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

**Credwn fod y syniadau sy'n newid bywydau pobl yn digwydd yn lleol.**
Mae cymunedau ar eu gorau pan maent yn teimlo eu bod wedi'u cysylltu â'u cynghorau trwy ddemocratiaeth leol. Drwy gefnogi'r cysylltiadau hyn, eu hwyluso a'u cyflawni, gallwn ddatblygu democratiaeth leol fywiog sy'n galluogi cymunedau i ffynnu.

**Ein nod yn y pen draw** yw hyrwyddo, diogelu, cefnogi a datblygu llywodraeth leol ddemocrataidd a buddiannau Cynghorau yng Nghymru.

**Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth drwy**
- Hyrwyddo swyddogaeth a statws cynghorwyr ac arweinwyr cynghorau
- Sicrhau cymaint o ddisgresiwn lleol â phosibl o ran deddfwriaeth neu ganllawiau statudol
- Cefnogi a sicrhau cyllid hirdymor a chynaliadwy i gynghorau
- Hybu gwelliant dan arweiniad y sector
- Annog democratiaeth leol fywiog gan hybu mwy o amrywiaeth
- Helpu cynghorau i reoli eu gweithlu'n effeithiol

## Trosolwg

1. Mae'r papur tystiolaeth hwn yn mynd i'r afael â'r cwestiynau a ofynnwyd gan y pwyllgor yn atodiad 2 i'r llythyr comisiynu. Mae'n seiliedig yn bennaf ar y papur a gyflwynwyd gan CLILC i Lywodraeth Cymru yng nghyfarfod yr Is-grŵp Cyllid ar 29 Medi. Fel yn y blynyddoedd blaenorol rydym wedi atodi'r papur hwnnw i'r papur hwn.

## Cwestiynau'r Pwyllgor

2. **Beth, yn eich barn chi, fu effaith Cyllideb 2025-2026 Llywodraeth Cymru**?

   Roedd setliad 2025-2026 yn well na'r disgwyl, ond nid oedd yn ddigon i ddiwallu'r pwysau ariannol cynyddol y mae cynghorau'n ei brofi. Mae'n rhaid i gynghorau osod cyllideb gytbwys ond fel y tystiolaethwyd yn y papur sydd ynghlwm â'r papur hwn, mae pwysau ariannol yn ystod y flwyddyn a galw nas rhagwelwyd yn cymell gorwariant a ragwelir o £184m. Mae bylchau cyllid ar gyfer newidiadau fel cyfraniadau Yswiriant Gwladol uwch wedi cael effaith sylweddol. Fodd bynnag, ffactorau ynghlwm â galw sy'n gyfrifol am gyfran sylweddol o'r gorwariant hwn. Mae gofal preswyl i blant ac anghenion dysgu ychwanegol yn cyfrif am dros un rhan o dair o'r gorwariant yn ystod y flwyddyn, wrth i gynghorau weithio i gyflawni'r newidiadau sy'n deillio o ddeddfwriaeth.

3. **Pa mor barod yn ariannol yw'ch sefydliad ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27, pa mor hyderus ydych chi y gallwch gyflawni amcanion sydd wedi'u cynllunio, a pha mor gadarn yw'ch gallu i gynllunio ar gyfer blynyddoedd i ddod?**

   Mae Cynghorau'n cynllunio dros y tymor canolig a thros yr haf arolygodd CLILC yr holl Gynghorau a gwasanaethau tân ac achub i lunio sylfaen dystiolaeth o bwysau dros y tymor canolig. [1] Mae amcangyfrif y pwysau ar gyfer 2026–27 yn £560 miliwn, ychydig mwy na £100 miliwn yn uwch na'r amcangyfrif yn arolwg y llynedd. Byddai hyn yn gofyn am gynnydd o ychydig llai na 7% mewn gwariant refeniw net. Mae'r pwysau hwn yn gostwng i £486 miliwn yn 2027-28 ac yn cynyddu ychydig i £512 miliwn yn 2028-29. Fodd bynnag, byddai'r cynnydd yn parhau i olygu bod gwariant yn cynyddu 5.5% yn y blynyddoedd hynny, ac erbyn diwedd 2028–29, byddai bron

[1] Mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn parhau i gael eu heffeithio gan bwysau costau sy'n sylweddol uwch na chynnydd i'w cyllid craidd ac mae'r tri'n cario bylchau yn eu cyllidebau o tua £1 miliwn, sydd tua 15–20% o'u trosiant. Mae'r tri'n canolbwyntio i raddau helaeth ar incwm o ffynonellau eraill i lenwi'r bwlch hwn, fodd bynnag, mae'r gallu a'r cyfle i wneud hynny'n amrywio ar draws y tri Awdurdod ac mae'n annhebygol y bydd modd llenwi'r bwlch yn gyfan gwbl trwy gynhyrchu incwm ychwanegol yn unig.

un rhan o bump yn uwch nag yw ar hyn o bryd. Mae llawer o hynny'n dibynnu ar faint y gall y setliad bontio'r bwlch ynghyd â threth y cyngor.

4. **Pa gamau gweithredu y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd i:**

- **helpu aelwydydd i ymdopi â phroblemau costau byw;**

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i flaenoriaethu mesurau sydd wedi'u targedu sy'n darparu cymorth yn ddi-oed ar gyfer yr aelwydydd yr effeithir arnynt fwyaf gan yr argyfwng costau byw, wrth fuddsoddi mewn datrysiadau tymor hwy sy'n lleihau gwariant aelwydydd ac yn datblygu gwydnwch. [2] Dylai'r camau blaenoriaeth gynnwys:

  - Cymorth ariannol wedi'i dargedu drwy ostyngiadau Treth y Cyngor, estyniadau i'r Gronfa Cymorth Dewisol, a grantiau argyfwng ar gyfer aelwydydd sy'n wynebu pwysau ariannol sylweddol.

  - Buddsoddi mewn tai ac effeithlonrwydd ynni, ehangu rhaglenni ôl-osod i leihau biliau ynni, a chyflymu darpariaeth tai fforddiadwy.

  - Lleihau costau hanfodion drwy gefnogi gofal plant fforddiadwy, cludiant, a mynediad at fwyd, gan gynnwys partneriaethau bwyd lleol a mentrau cymunedol.

  - Cymorth cyflogaeth a sgiliau, yn enwedig ar gyfer y sectorau ansefydlog gyda thâl isel, ac ar gyfer pobl sy'n derbyn budd-daliadau'n seiliedig ar waith, gan sicrhau mynediad at waith teg a chyfleoedd i ddatblygu.

  - Mesurau cynhwysiant digidol, gan sicrhau y gall yr holl aelwydydd gael mynediad at wasanaethau ar-lein, tariffau fforddiadwy, a chyfleoedd cyflogaeth.

- **mynd i'r afael ag anghenion pobl sy'n byw mewn cymunedau trefol, ôl-ddiwydiannol a gwledig, gan gynnwys adeiladu tai fforddiadwy a chefnogi economïau o fewn y cymunedau hynny?**

Mae adeiladu mwy o gartrefi'n hanfodol i sicrhau bod gennym ddigon o dai i bawb sydd eu hangen, yn cynnwys yr aelwydydd hynny sy'n dod yn ddigartref neu sydd mewn tai sy'n anaddas, ac mae'n gymhelliant allweddol ar gyfer datblygu a chynnal

[2] Effaith ymyriadau polisi a ddyluniwyd i leihau tlodi yng Nghymru - Sefydliad Bevan

economïau lleol.  Mae'r cynghorau hynny sydd â stoc tai'n rhoi rhaglenni adeiladu newydd uchelgeisiol ar waith ac yn ceisio caffael cartrefi presennol (sy'n aml yn gyn-eiddo Hawl i Brynu) i gynyddu nifer y cartrefi rhentu cymdeithasol sydd ar gael. Mae costau cynyddol o ran tir, llafur a deunyddiau'n golygu bod y broses o adeiladau tai cyngor newydd sydd wir eu hangen wedi dod yn fwy costus – mae hyn yn bygwth hyfywedd llawer o gynlluniau adeiladu tai heb gymhorthdal cyfalaf cynyddol gan Lywodraeth Cymru. Mae pob cyngor hefyd yn gweithio gyda phartneriaid sy'n Landlord Cymdeithasol Cofrestredig i adeiladu cartrefi rhent cymdeithasol carbon-isel newydd. Mae'n bwysig sicrhau felly fod cyllid cyfalaf cynyddol ar gael i gefnogi adeiladu tai cymdeithasol ar y cyflymder a'r raddfa mae eu hangen i leihau dibyniaeth ar lety dros dro ac anaddas a sicrhau y gellir diwallu anghenion tai dinasyddion sydd ag anghenion tai. Mae landlordiaid cymdeithasol, yn cynnwys y cynghorau hynny sydd â stoc tai, angen sicrwydd hirdymor mewn perthynas ag incwm rhent er mwyn gallu cynllunio'n effeithiol ar gyfer gwaith cynnal a chadw a gwella'r tai sydd ganddynt, a datblygu cartrefi newydd y mae mawr eu hangen.

Mewn perthynas â chymunedau gwledig, bu i CLlLC gynhyrchu Maniffesto Gwledig yn ddiweddar. [3] Mae'r maniffesto'n galw am bolisïau tai wedi'u teilwra i gefnogi anghenion cymunedau gwledig, ysgogi economïau lleol a chadw demograffeg iau. Mae hefyd yn awgrymu y rhoddir ystyriaeth i gyflwyno hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer anheddau sengl a throsi adeiladau fferm at ddefnydd preswyl. Mae cynghorau wedi croesawu mesurau deddfwriaethol a pholisi sydd wedi galluogi hyblygrwydd lleol ac ymreolaeth i fynd i'r afael â materion o ran tai.  Ond yr effaith fwyaf uniongyrchol y gallai cyllideb ei chael ar ddiwallu anghenion tai gwledig yw cynyddu argaeledd tai fforddiadwy mewn cymunedau gwledig.

5. **A yw polisïau cymorth busnes Llywodraeth Cymru wedi bod yn effeithiol, o ystyried y rhagolygon economaidd ar gyfer 2026-27?**

Mae Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf wedi'u hariannu ar y cyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, fel y ddau Barth Buddsoddi a'r ddau Borthladd Rhydd. Ond, gyda'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF - a lansiwyd ac a weinyddwyd yn bennaf dan Lywodraeth flaenorol y DU) nid oedd cyfranogiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru.  Roedd y cynghorau'n derbyn y cyllid yn uniongyrchol, gyda chymorth busnes yn un o'r tri chategori eang o ymyraethau a ganiateir ('Cymunedau a Lle' a 'Phobl a Sgiliau' oedd y ddau arall).

Roedd cynghorau'n cydweithio yn y rhanbarthau i gytuno ar elfen o gysondeb rhanbarthol o ran dull, ond roedd darpariaeth prosiectau SPF yna'n cael ei bennu

[3] Maniffesto Gwledig CLlLC

gan bob cyngor lleol. Roed hyn yn golygu bod modd addasu'r gefnogaeth i ddiwallu anghenion lleol. Yr adborth gan gynghorau a busnesau yw bod hyn yn hynod effeithiol. Mae cynghorau wedi llwyddo i weithio gyda busnesau lleol i gefnogi eu datblygiad a chynorthwyo i leihau eu costau cynnal parhaus (e.e. drwy ddarparu cefnogaeth i osod mesurau ynni adnewyddadwy). Mae gwybodaeth leol wedi bod yn elfen hollbwysig (ac i ryw raddau yn ategu at y wybodaeth a'r perthnasoedd a ddatblygwyd gyda chwmnïau lleol yn ystod pandemig Covid).

Gwneir achos yn aml dros resymoli gwasanaethau cymorth busnes. Yn aml honnir fod y sefyllfa'n rhy ddryslyd ar gyfer busnesau, yn enwedig rhai sy'n gweithredu mewn ardaloedd gyda gwahanol gynghorau. Ond, yr hyn sy'n allweddol yw cyfathrebu da rhwng y rhai sy'n cynnig cefnogaeth ar wahanol lefelau ac eglurder o ran 'pwy sy'n darparu beth'. Mae gan Lywodraeth y DU gyfranogiad yma (e.e. mewn perthynas â chymorth allforio; trethu) ynghyd â Llywodraeth Cymru a'r cynghorau. Mae gan bob haen ei rolau a'i swyddogaethau. Mae ymagwedd llywodraeth aml-lefel yn elfen ganolog i gyflawni cymorth busnes effeithiol ond yn dibynnu'n helaeth ar gyfathrebu rheolaidd ac agored.

Os yw cynghorau'n colli mynediad at gyllid pan fydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon bydd yn tanseilio eu gallu i gyfranogi yn hyn. Bydd cymorth a ddarperir gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru'n llai effeithiol os nad oes digon o gefnogaeth ar gael ar lefel leol, sef ble y cyflawnir gweithgareddau cwmnïau yn bennaf.

Yn olaf, mae'n bwysig nodi y gall polisïau <u>eraill</u>, <u>nad</u> ydynt yn 'benodol i gymorth busnes', o bob haen o'r llywodraeth, effeithio ar fusnesau. Er enghraifft, gall polisïau trethi ac yswiriant gwladol, polisïau amaethyddol, polisïau amgylcheddol, a pholisïau sy'n ymwneud â chartrefi gwyliau mewn ardaloedd twristiaeth, oll effeithio ar ragolygon busnesau. Yn dibynnu ar natur y polisïau hyn, gallant naill ai wella ymdrechion ehangach cymorth busnes, neu, o bosib, weithio i'w tanseilio.

6. **A yw cynlluniau Llywodraeth Cymru i adeiladu economi wyrddach yn eglur ac yn ddigon uchelgeisiol? Ydych chi'n credu bod digon o fuddsoddiad yn cael ei dargedu at fynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd a natur? A oes unrhyw fylchau sgiliau posibl y mae angen mynd i'r afael â nhw i gyflawni'r cynlluniau hyn?**

Mae cynlluniau Llywodraeth Cymru i ddatblygu economi wyrddach yn eglur o ran cyfeiriad ac yn uchelgeisiol yn eu cwmpas ac ar y blaen o gymharu â chenhedloedd eraill y DU. Mae targed Sero Net erbyn 2030 yn enghraifft dda o lefel yr uchelgais.

Mae pwyslais da a chyfarwyddyd i arwain y weledigaeth ar gyfer Cymru sy'n gryfach, tecach a gwyrddach, sydd wedi'i gefnogi gan ystod o fentrau a buddsoddiad. Ond, rydym yn teimlo nad yw lefel y cyllid a ddyrennir i'r meysydd hyn yn cyd-fynd â lefel yr uchelgais, gan olygu bod cynnydd yn araf. Nid yw'r argyfwng natur wedi derbyn yr un lefel o ran cefnogaeth ac er y darperir cyllid drwy Bartneriaethau Natur Lleol, nid yw'n ddigonol i sefydlogi neu wrthdroi dirywiad natur a bioamrywiaeth. Er bod CLILC yn cefnogi'r ddeddfwriaeth newydd ar Egwyddorion Amgylcheddol a Thargedau Bioamrywiaeth fel 'cam i'r cyfeiriad cywir', ni fydd cynnydd yn cael ei gyflawni oni cheir adnoddau a chyllid ar y lefel briodol.

O safbwynt llywodraeth leol, mae'r argyfwng ariannol presennol a lefelau benthyca uchel yn ei gwneud yn heriol blaenoriaethu buddsoddiad yn y meysydd hyn, gyda gormod o ddibyniaeth ar grantiau.

Mae capasiti a sgiliau'n alluogwyr allweddol. Er bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i gefnogi darpariaeth y Cynlluniau Sgiliau Gwyrdd ac wedi ariannu cynllun peilot i alluogi lleoliadau mewn peirianneg amgylcheddol o fewn cynghorau, mae sgiliau a chapasiti ar bwynt argyfyngus gan effeithio ar allu sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat i gyflawni. At hynny, mae'n bwysig pwysleisio bod angen 'sgiliau gwyrdd' mewn meysydd fel addysg a gofal cymdeithasol ynghyd â gwasanaethau cefnogi fel cyllid, gwasanaethau cyfreithiol a phersonél, a datblygu Aelodau.

7. **A yw Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r mecanweithiau ariannol sydd ar gael iddi o ran benthyca a threthiant yn effeithiol?**

Mae CLILC yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru'n cyflawni cynnydd gyda'r pwerau trethu cyfyngedig. Mae'r dreth dwristiaeth yn enghraifft dda o sut y gellir gweithredu trethi lleol dewisol i gefnogi gwasanaethau lleol. Ym mis Mai 2025, ysgrifennodd CLILC at Ganghellor y DU cyn yr Adolygiad o Wariant i gyflwyno achos cryf dros fwy o hyblygrwydd cyllidol o ran benthyca a chronfeydd wrth gefn ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'r cyfyngiadau presennol yn cyfyngu'r gallu i flaenoriaethu buddsoddiad a chymell twf. Byddai hyn yn gymorth gyda chyllid llywodraeth leol hefyd, gan y gallai Llywodraeth Cymru gymryd dull sy'n fwy strategol o ran cynllunio ariannol sy'n fwy hirdymor. Byddai hynny'n galluogi llunio polisïau sy'n fwy ymatebol ac yn ysgogi twf economaidd lleol ynghyd â gwella gwasanaethau cyhoeddus.

8. **Hoffai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar nifer o feysydd penodol eraill wrth graffu ar y Gyllideb. A oes gennych unrhyw sylwadau penodol o ran y meysydd a nodir isod?**

   - **A oes digon yn cael ei wneud i fynd i'r afael â chostau byw cynyddol a chefnogi'r bobl hynny sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol?**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ystod o ymyraethau a groesewir, gan gynnwys ehangu prydau ysgol am ddim, parhau i weithredu'r Gronfa Cymorth Dewisol, a buddsoddi mewn cynlluniau effeithlonrwydd ynni, canolfannau clyd, grantiau bwyd uniongyrchol ac ariannu Partneriaethau Bwyd Lleol ac ati, mae'r mesurau hyn wedi darparu achubiaeth hanfodol.

Croesewir y gwaith parhaus i ddatblygu'r Siarter Budd-daliadau hefyd.

Ond, mae parhad tlodi incwm perthnasol, yn enwedig ymysg teuluoedd â phlant, rhieni sengl, pobl anabl, a'r rhai mewn swyddi ansefydlog, yn dangos nad yw'r mesurau presennol yn ddigon i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau strwythurol.  Mae angen parhaus am:

- Ymagwedd llywodraeth gyfan, gan sicrhau bod strategaethau tai, iechyd, addysg a datblygu economaidd yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â thlodi.

- Mwy o ffocws ar atal, gan fynd i'r afael ag achosion craidd tlodi drwy waith teg, tai fforddiadwy, a mynediad at ofal plant fforddiadwy.

- Strategaethau hirdymor, nid yn unig i leihau'r pwysau uniongyrchol ond hefyd i leihau'r ddibyniaeth ar gymorth ariannol mewn argyfwng.

- Ymgyrchoedd cenedlaethol effeithiol i hyrwyddo mynediad at wasanaethau ac argaeledd budd-daliadau i gyrraedd y cymunedau sydd â'r angen mwyaf am gefnogaeth ac i fynd i'r afael â'r cysyniadau negyddol a stigma tlodi[4] yr hawlwyr.

- **Sut y gallai'r gyllideb fynd i'r afael ymhellach ag anghydraddoldeb rhywedd mewn meysydd fel gofal iechyd, sgiliau a chyflogaeth?**

Er gwaethaf cwmpas cyfyngedig ar gyfer gwariant newydd, mae cyfleoedd strategol i ymgorffori cydraddoldeb rhywedd ar draws meysydd polisi allweddol, yn enwedig gofal iechyd, sgiliau, a chyflogaeth, drwy hyrwyddo Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru ymhellach, defnydd gwell o'r rhaglenni presennol ac ymyraethau wedi'u targedu. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys:

[4] Stigma Tlodi | WCPP

**Dylunio Gwasanaeth ar sail Rhywedd:** Blaenoriaethu cyllid ar gyfer gwasanaethau sy'n mynd i'r afael â gwahaniaethau o ran rhywedd mewn canlyniadau iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, iechyd atgenhedlu, a chyflyrau cronig sy'n fwy amlwg ymysg merched.
**Cefnogaeth i Ofalwyr:** Gwella gwasanaethau iechyd a lles yn y gymuned sy'n cefnogi gofalwyr di-dâl - merched yn bennaf - drwy bresgripsiynu cymdeithasol ac ymyrraeth gynnar.
**Sefydliadau Angori:** Annog cyrff cyhoeddus i weithredu fel arweinwyr mewn cyflogadwyedd sy'n gynhwysol o ran rhywedd drwy hyrwyddo gweithio'n hyblyg, recriwtio cynhwysol, a chymorth iechyd galwedigaethol wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion merched.
**Cyllidebu ar sail Rhywedd:** Ymgorffori cynlluniau peilot cyllidebu ar sail rhywedd ar draws yr holl adrannau i sicrhau bod penderfyniadau gwario yn ystyried cydraddoldeb o ran rhywedd. Sicrhau bod colegau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant yn ystyried effaith ar rywedd wrth ddylunio cyrsiau ac allgymorth.
**Cynlluniau Peilot Sgiliau, Cyflogadwyedd a Gofal Plant:** Ehangu ar gynlluniau peilot mewn sgiliau, cyflogaeth a gofal plant i fynd i'r afael ag effeithiau anghydraddoldeb gwariant ar rywedd.
**Gwaith Teg a Chaffael:** Defnyddio mesurau caffael sector cyhoeddus i gymell cyflogwyr i gau bylchau cyflog o ran rhywedd, gwella diogelwch swyddi, a chynnig trefniadau gweithio'n hyblyg.
**Cefnogaeth Awdurdod Lleol:** Darparu offer a chanllawiau i gynghorau i gymhwyso cyllidebu a chynllunio gwasanaeth sy'n sensitif i rywedd, gan eu cynorthwyo i flaenoriaethu cydraddoldeb er gwaethaf y cyfyngiadau ariannol.
**Data ac Atebolrwydd:** Atgyfnerthu'r defnydd o ddata wedi'i ddadelfennu yn ôl rhywedd i fonitro cynnydd a hysbysu penderfyniadau polisi yn y dyfodol, yn enwedig o ran rhaglenni cyflogaeth a sgiliau.

- **A gaiff dull gweithredu Llywodraeth Cymru, o ran gwariant ataliol, ei gynrychioli o ran dyrannu adnoddau? (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lleddfu galw yn y dyfodol ar wasanaethau drwy ymyrryd yn gynnar).**

Atal yw un o'r blaenoriaethau a nodwyd ym Maniffesto Cam 1 CLILC cyn etholiadau'r Senedd y flwyddyn nesaf, lle bo cynghorau wedi eirioli'n barhaus am fwy o fuddsoddiad mewn ymyrraeth gynnar ac atal, yn enwedig mewn meysydd fel gwasanaethau gofal cymdeithasol, tai a chymunedol.

Ond, er bod polisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru'n cyfeirio'n gyson at bwysigrwydd atal, nid yw'n aml yn cael ei adlewyrchu wrth ddyrannu adnoddau. Mae'r dystiolaeth o hyn yn amlwg. Dros y ddegawd ddiwethaf, mae pwysau parhaus ar gyllidebau craidd wedi cynyddu'n sylweddol yn ôl Archwilio Cymru[5]. Gan ganolbwyntio ar atal, mae eu gwaith yn nodi cynnydd termau real mewn gwariant o 18% ar Anghenion Dysgu Ychwanegol, 25% ar gludiant o'r cartref i'r ysgol, a 75% ar blant sy'n derbyn gofal - gyda'r mwyafrif o'r rhain yn wariant sydd wedi deillio o gyllidebau cynghorau. Mae hyn heb nodi effaith y pwysau o ran cyflogau a gofal cymdeithasol.

Yn ystod yr un cyfnod, mae Archwilio Cymru'n cyfrifo bod cyllid craidd llywodraeth leol wedi *gostwng* mewn termau real o 0.55%. Bu'n rhaid i gynghorau flaenoriaethu gwasanaethau statudol, yn aml ar draul y darpariaethau anstatudol, ataliol fel cyfleusterau hamdden, cludiant a chymunedol - sydd oll â swyddogaeth allweddol o ran cefnogi lles ac atal cynnydd o ran angen. Mae angen newid sylweddol o safbwynt dyrannu adnoddau er mwyn i gynghorau fuddsoddi'n hyderus mewn ymagweddau atal a fydd yn darparu gwell canlyniadau ar gyfer dinasyddion.

- **Sut ddylai Llywodraeth Cymru egluro'r penderfyniadau cyllid, gan gynnwys sut mae gwariant yn cyfrannu at fynd i'r afael â materion polisi?**

Mae unrhyw gyllideb, yn ei hanfod, yn golygu cydbwyso gydag un maes yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth wleidyddol ac yn derbyn rhagor o arian, tra bo blaenoriaethau is yn colli allan i ryw raddau. Mae tueddiad amlwg i gyfleu cyllideb fel y defnydd gorau o'r arian sydd ar gael, ond byddai'n ddefnyddiol tynnu sylw at y meysydd yr effeithiwyd arnynt fwyaf, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol. Byddai hyn yn galluogi'r etholwyr i gael gwell dealltwriaeth gan ganiatáu gwell rheolaeth o ddisgwyliadau'r boblogaeth leol.

- **Sut y gellir gwella'r dogfennau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft?**

Mae mwyafrif y boblogaeth o'r farn bod y ffigyrau a'r iaith a ddefnyddir yn y gyllideb yn anhreiddiadwy. Byddai'n ddefnyddiol cael crynodeb "pwyntiau allweddol" 4 neu 5 tudalen gyda ffeithluniau a allai alluogi pobl i ddeall sut y dyrennir eu harian gan

[5] Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Lywodraeth Cymru.  Mae'n debyg y byddai'r cyfryngau yn defnyddio'r rhain ac yn gymorth i egluro'r prif newidiadau i'r gyllideb i'r boblogaeth.

Lle y gwnaed newidiadau i'r grantiau (terfynu, uno, cynyddu / lleihau), weithiau mae'n anodd darllen ar draws o ran beth yw'r goblygiadau cyllid cyffredinol yn y maes a byddai modd gwneud hyn yn gliriach.

- **Sut y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu ei hadnoddau i ymdrin â rhestrau aros y GIG ar gyfer triniaethau GIG sydd wedi'u cynllunio ac nad ydynt yn rhai brys. A ydych chi'n credu bod gan Lywodraeth Cymru gynllun cadarn i fynd i'r afael â'r mater hwn?**

Mae angen ymagwedd system gyfan er mwyn mynd i'r afael â rhestrau aros y GIG ar gyfer triniaethau sydd wedi'u cynllunio ac nad ydynt yn rhai brys, sy'n dyrannu adnoddau nid yn unig o fewn y GIG, ond ar draws llywodraeth leol a gwasanaethau cymunedol hefyd, er enghraifft, sicrhau y gall pobl adael yr ysbyty pan fo'n briodol drwy sicrhau bod pecynnau gofal a chefnogaeth yn y gymuned ar gael os oes angen.  Gall cynghorau a gofal cymdeithasol ddarparu arbenigedd helaeth o ran atal ac ymyrraeth gynnar, gan gefnogi pobl i aros yn annibynnol yn eu cartrefi - ffactorau allweddol er mwyn lleihau'r galw am ofal mewn ysbyty.  Mae galw am fwy o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru yn y meysydd hyn, gan flaenoriaethu gwasanaethau atal ac yn y gymuned fel gofal cymdeithasol, ailalluogi ac adsefydlu, ochr yn ochr â chyllid wedi'i dargedu ar gyfer y GIG.  Mae gan gynghorau brofiad o ddarparu cefnogaeth integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ymateb yn hyblyg i anghenion lleol, sy'n gymorth i atal uwchgyfeirio ac osgoi derbyniadau di-angen.

Bydd atgyfnerthu'r rhyngwyneb rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn gymorth i fynd i'r afael â rhestrau aros yn fyrdymor ond hefyd yn datblygu gwydnwch system hirdymor.  Er bod Llywodraeth Cymru wedi gosod cynlluniau i fynd i'r afael â rhestrau aros, gan gynnwys cyllid ychwanegol a thargedau adfer, byddai CLILC yn croesawu mwy o eglurder o ran sut y cynhelir y cynlluniau hyn, sut y byddant yn mynd i'r afael â heriau o ran y gweithlu a chapasiti, a sut byddant yn cael eu hintegreiddio gyda gwasanaethau ataliol sy'n cael eu darparu gan gynghorau.  Mae angen sicrhau bod adnoddau a darpariaeth amserol ar gael i ddarparu gwasanaethau adfer iechyd yn y gymuned ochr yn ochr â gofal cymdeithasol, i gyfyngu cymhlethdodau ac ail-dderbyn i'r ysbyty.  Mae'n rhaid i gynllun cadarn gydnabod rhyng-ddibyniaeth iechyd a gofal cymdeithasol a sicrhau bod cyllid yn ymateb i anghenion uniongyrchol ynghyd â datblygu cynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol.

- **A yw Llywodraeth Cymru’n darparu cefnogaeth ddigonol i'r sector cyhoeddus i'w alluogi i fod yn arloesol ac yn flaengar trwy bethau fel cynllunio'r gweithlu?**

Mae cynllunio’r gweithlu’n bryder parhaus ar draws sector cyhoeddus Cymru o’r strategol i’r gweithredol.  Mae recriwtio a chadw’n heriau penodol yn y meysydd gwasanaeth sy’n cymell pwysau cyllidebol mawr - yn bennaf ym maes gofal cymdeithasol, gwasanaethau plant, addysg a digartrefedd, ond nid yn y meysydd hyn yn unig y ceir hyn.  Mae cynghorau’n nodi anawsterau gweithlu dwys mewn meysydd arbenigol fel arbenigeddau cynllunio ac amgylcheddol.

Bydd y Gyllideb Ddrafft hefyd yn cael ei chyflwyno mewn cyfnod pan fo cynghorau’n wynebu camau cynnar newid technolegol mewn cymdeithas, a fydd yn golygu bod angen dysgu a chynllunio sefydliadol os ydym am elwa o ddigideiddio ac effeithlonrwydd.
Mae Cytundeb Partneriaeth Strategol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol yn cydnabod ein sefyllfa ac yn ymrwymo i waith ar y cyd i sicrhau bod llywodraeth leol yn ‘gyflogwr delfrydol’ a diwallu’r heriau a nodwyd uchod.  Mae angen adlewyrchu’r camau gweithredu gwirioneddol i gyflawni hyn ym mhroses a dyraniadau’r gyllideb.

Er mwyn cefnogi cynllunio’r gweithlu ac arloesi, dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i:

1) ymrwymiadau ariannol ychwanegol ar sail hirdymor i gefnogi dylunio sefydliadol i drawsnewid a chynnal gwasanaethau, cynllunio’r gweithlu a datblygu sgiliau er mwyn galluogi creadigrwydd ac arloesi gofynnol;

2) ymgymryd ag adolygiad a deall effaith ar ddarpariaeth gwasanaeth a diogelwch swyddi yn sgil defnydd parhaus o gyllid grant, swyddi sydd wedi’u hariannu gan grantiau a’r effaith ehangach ar gynllunio’r gweithlu; ac

3) adolygiad sy’n fwy trylwyr o heriau recriwtio a chadw mewn meysydd gwasanaeth â phwysau critigol, mewn cysylltiad â gallu Awdurdodau Lleol i gynllunio’r gweithlu’n effeithiol.

- **A fu digon o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru yn seilwaith sylfaenol y sector cyhoeddus?**

- **Sut y dylai'r Gyllideb gefnogi pobl ifanc?**

O ran “isadeiledd y sector cyhoeddus”, mae CLlLC mewn sefyllfa i ymateb o safbwynt llywodraeth leol, yn hytrach na’r sector cyhoeddus ehangach. Mae blaenoriaeth ddealladwy ar gyfer rhestrau aros yn y GIG, ond mae cymaint o’r gwaith a wneir gan lywodraeth leol yn ataliol felly byddai buddsoddiad mewn llywodraeth leol yn arwain at ostyngiadau buddiol o ran pwysau ar y GIG. Gyda dros £1.5bn o bwysau dros y tair blynedd nesaf, bydd angen gostyngiadau pellach o ran gwasanaeth a fydd yn anochel yn lleihau’r gwaith ataliol sy’n cael ei gyflawni.

O ran isadeiledd ffisegol gwirioneddol, croesawyd Menter Benthyca Llywodraeth Leol diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer Priffyrdd, gan alluogi cynghorau i fuddsoddi hyd at £120m yn y rhwydwaith priffyrdd sirol eleni a’r flwyddyn nesaf. Mae buddsoddiad o’r fath yn allweddol er mwyn cynnal cyflwr y briffordd, y mae sawl agwedd o ddarpariaeth gwasanaeth yn amlwg yn dibynnu arni. Fe fydd yn bwysig canfod dulliau o gynnal lefelau buddsoddiad o’r fath y tu hwnt i’r fenter bresennol neu fe fydd traul barhaus a digwyddiadau tywydd yn cyfrannu at ddirywiad y rhwydwaith eto dros amser.

O safbwynt isadeiledd addysg yn benodol, nododd un ymatebydd i Arolwg y Trysoryddion bod “Buddsoddiad cyffredinol i gynnal adeiladau ysgolion (cyfrifoldeb sy’n cael ei ddirprwyo i gyrff llywodraethu ysgolion) wedi’i effeithio gan gyfyngiadau cyllid mewn ysgolion. Er mwyn lleihau problemau’r llwyth o waith cynnal a chadw sydd i’w wneud, rydym ni wedi buddsoddi mewn gwaith diogelu brys ar draws y sir, ond i gyflawni ein hymrwymiadau trawsnewid cyfalaf cyfredol a buddsoddi i gyrraedd statws sero net ar draws yr ystâd ysgolion, rydym wedi brasamcanu bod angen dros £400 miliwn o fuddsoddiad. Byddai benthyca i gefnogi’r lefel hon o fuddsoddiad yn galw am gyfraniadau refeniw blynyddol dros £25 miliwn, lefelau ymhell tu hwnt i’r hyn sy’n fforddiadwy”.

O safbwynt addysg, dylai’r gyllideb alluogi awdurdodau lleol i ddyrannu adnoddau’n effeithiol ar gyfer dysgwyr a’u teuluoedd, gan ddarparu’r ymyraethau gofynnol, a rheoli’r costau cynyddol sy’n gysylltiedig â’r galw am wasanaeth a darpariaeth.

O ystyried y pwysau cynyddol o ran galw ar ysgolion ac awdurdodau lleol o ran ymddygiad, presenoldeb a materion iechyd meddwl a lles, mae’n hanfodol bod awdurdodau lleol yn derbyn yr adnoddau digonol i ddarparu cefnogaeth briodol i blant a’u teuluoedd. Fe fydd hyn yn sicrhau ymgysylltiad gydag addysg, mynediad at gyfleoedd addysg addas, a’u diogelu rhag niwed. Mae’r angen am gefnogaeth o’r fath yr un mor bwysig ar gyfer y garfan Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sy’n fwyfwy cymhleth, o fewn lleoliadau addysg ac mewn darpariaeth blynyddoedd

cynnar. Dylai diwygiadau, yn cynnwys canlyniadau anfwriadol ar lwyth gwaith, gael eu hariannu'n llwyr i wneud y gorau o'r gefnogaeth a gaiff pobl ifanc.

Mae cynnydd mewn cyllid yn ofynnol ar gyfer cludiant ysgol er mwyn diwallu goblygiadau statudol a chefnogi presenoldeb cyffredinol a chyfranogiad mewn gweithgareddau ysgol ehangach.

Ers 2010-11, mae incwm y sector gwaith ieuenctid wedi lleihau o 26% (adroddiad 'Cam 2: adolygu cyllid gwaith ieuenctid' Llywodraeth Cymru).[6] Yn y cyfnod hwn mae presenoldeb a chyrhaeddiad wedi dirywio, ac mae gwaharddiadau a throseddau ieuenctid wedi cynyddu. Mae gwaith ieuenctid bellach yn fwy dibynnol ar gyllid allanol (tymor byr) gan fod y cyllid craidd wedi'i ostwng. Mae rhai cynghorau yn adrodd, oherwydd gostyngiad yn nifer yr aelodau o staff, y byddant yn ei chael hi'n anodd hawlio/gwario grantiau penodol oherwydd diffyg capasiti craidd.

- **Sut mae tystiolaeth a data'n arwain gosod blaenoriaethau a dyraniadau cyllidebol Llywodraeth Cymru, ac a yw'r ymagwedd yn glir?**

Mae data'n allweddol i gymell dyraniadau cyllidebol drwy'r fformiwla ar gyfer y Grant Cynnal Refeniw sy'n tanategu setliad cyllid llywodraeth leol. Mae pryder cynyddol o ran faint mae'r data wedi dyddio, gyda rhai'n parhau i fod yn gysylltiedig â chyfrifiad 1991, ac a yw'r dangosyddion yn parhau i fod yn rhai cywir ac wedi'u pwysoli'n gywir.

Er bod gan gynghorau safbwyntiau amrywiol o ran cryfder y fformiwla gyllid yn dibynnu ar nodweddion eu cymunedau, mae CLILC yn cydnabod bod cyfresi data sy'n tanategu gwasgariad ac amddifadedd wedi dyddio a bod hynny'n achosi rhwystredigaeth ar gyfer ein hawdurdodau lleol. Mae gwaith ar y cyd rhwng swyddogion CLILC a Llywodraeth Cymru wedi'i gyflawni drwy'r Is-grŵp Dosbarthu, lle bo rhaglen waith barhaus yn ceisio mynd i'r afael â gweithrediad y fformiwla gyllid. Ond mae galwadau gan awdurdodau lleol wedi bod yn cynyddu ar gyfer adolygiad trylwyr, annibynnol ac allanol.

Mae CLILC yn parhau i fod o'r safbwynt bod maint cyffredinol setliad cyllid llywodraeth leol yn fater hollbwysig sy'n pennu dyfodol gwasanaethau lleol. Gallai Llywodraeth Cymru wneud gwell defnydd o ddata i ragweld galw am wasanaethau yn y dyfodol, yn enwedig rhagamcanion modelu o ran newid demograffig a phoblogaeth. Mae'n allweddol bod data'n cael ei ddefnyddio i fodelu sefyllfaoedd

[6] Adolygiad Cyllid Gwaith Ieuenctid: Cam 2 Mawrth 2024 - Cadwrfa Ymchwil

posibl ar gyfer twf yn y dyfodol o ran pwysau ADY, gwasanaethau plant a gofal cymdeithasol.

- **A yw'r gefnogaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i sefydliadau'r trydydd sector, sy'n wynebu galw cynyddol am wasanaethau o ganlyniad i'r argyfwng costau byw a'r costau ychwanegol yn dilyn cynnydd i'r Cyfraniadau Yswiriant Gwladol, yn ddigonol?**

Mae gan y trydydd sector rôl allweddol i gefnogi cymunedau drwy'r argyfwng costau byw, darparu gwasanaethau cyngor, cefnogaeth gyda bwyd a thanwydd mewn argyfwng, a meithrin gwydnwch cymunedol hirdymor. Fodd bynnag, mae'r galw am y gwasanaethau hyn wedi cynyddu'n sylweddol, tra bo sefydliadau hefyd yn wynebu costau gweithredu uwch fel ynni, staffio, yswiriant a chyfraniadau cyflogwyr. Mae cynghorau angen cyllid digonol er mwyn comisiynu gwasanaethau'r sector gwirfoddol lleol, gan fod trefniadau cyllid presennol yn annigonol i gynnal y cynnydd hwn mewn galw. Mae cyllid yn aml yn fyrdymor, tameidiog, ac yn seiliedig ar brosiectau, sy'n tanseilio sefydlogrwydd a chynllunio hirdymor.

Er mwyn galluogi'r trydydd sector i barhau i ddarparu'n effeithiol, dylai Llywodraeth Cymru ystyried setliadau cyllid aml-flwyddyn i gefnogi sefydlogrwydd ariannol a chynllunio ar gyfer y dyfodol a darparu cefnogaeth cynyddu gallu i atgyfnerthu gwydnwch, nid ymateb mewn argyfwng yn unig.

- **Beth yw'r cyfleoedd allweddol i Lywodraeth Cymru fuddsoddi i gefnogi economi a gwasanaethau cyhoeddus sy'n cyflawni'n well yn erbyn y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae ystod o gyfleoedd a ddylai ategu at yr argymhellion o fewn adroddiad 10 mlynedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae llywodraeth leol yn gweithio tuag at ei ymrwymiadau Cymru Sero Net, Cyllideb Carbon 2 Llywodraeth Cymru. Ynghyd â lleihau allyriadau carbon, gall mwy o fuddsoddiad hirdymor ar gyfer yr ymrwymiadau hyn (gan gynnwys datgarboneiddio adeiladau dinesig, trawsnewid cerbydau, lleihau carbon mewn caffael, a defnyddio tir yn gynaliadwy) ddarparu buddion ehangach ar gyfer yr economi, cyflogaeth, cymunedau ac iechyd cyhoeddus, ynghyd â chyllidebau cynghorau.

Bydd buddsoddi yn y meysydd hyn yn sicrhau ein bod yn gweithio tuag at y targed statudol o sero net erbyn 2050. Bydd yn cynyddu gwydnwch ledled Cymru wrth ymdrin â newid hinsawdd, gan ddatblygu'r gweithlu i brif ffrydio'r defnydd o

dechnolegau newydd a gwneud yr addasiadau gofynnol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Gall buddsoddi mewn gwasanaethau llywodraeth leol gael effaith ataliol sylweddol, gan wella lles gydag ymagwedd 'system gyfan' yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.   Mae buddion ehangach yn sgil buddsoddi mewn meysydd fel gwasanaethau ieuenctid, gofal cymdeithasol, addysg, teithio llesol a chludiant cyhoeddus, cyfleusterau hamdden, tai cymdeithasol, cefnogaeth i fusnesau lleol ac ati, er enghraifft mewn perthynas â gwella iechyd (lleihau'r pwysau ar y GIG), lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol (llai o bwysau ar yr heddlu), a lleihau absenoliaeth yn y gweithlu (gwella cynhyrchiant busnes).

Un o'r prif rwystrau y gallwn ei weld yw parhad 'seilos cyllidebau' o fewn LIC.  Mae'r rhain yn cyfyngu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau a phrosiectau gyda sawl budd ond hefyd yn cymell meddwl yn fyrdymor.  Nododd adroddiad diweddar gan Archwilio Cymru nad yw'r Ddeddf yn cymell newid system gyfan fel y bwriadwyd.  Yn bennaf, mae hyn yn ymwneud â'r galw am gynllunio hirdymor.  Gallai hyn ddeillio o ddiffyg cynllunio ariannol hir dymor neu fod diffyg rhagwelediad mewn strategaethau cenedlaethol ac nad oes cynlluniau cyflawni hirdymor i'w cefnogi.

ATODIAD I

## Is-grŵp Cyllid

# Atodiad I

29 Medi 2025

## RHAGOLYGON ARIANNOL

### Crynodeb

1. Gwasanaethau lleol yw sylfaen ein cymunedau gydag aelodau etholedig a swyddogion ymroddgar yn ymdrechu i wneud gwahaniaeth. Ar hyd a lled y wlad, o Gaergybi i Gasnewydd, o Dreffynnon i Dyddewi, mae Cynghorau'n helpu i greu cymunedau llewyrchus sy'n buddsoddi yn y bobl a'r isadeiledd a fydd yn creu'r amodau ar gyfer twf economaidd lleol cynaliadwy a chynhwysol sydd, yn y pen draw, yn cyfrannu at well canlyniadau iechyd a lles i bawb.

2. Gyda'r darlun hwn, mae CLILC yn nodi'r heriau ariannol sy'n wynebu llywodraeth leol dros y tair blynedd nesaf ar sail data sy'n deillio o gynlluniau ariannol tymor canolig y Cynghorau. Mae'r wybodaeth hefyd yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg cynhwysfawr o Gynghorau a Gwasanaethau Tân ac Achub a gynhaliwyd yn ystod mis Gorffennaf/Awst 2025 gyda chymorth Cymdeithas Trysoryddion Cymru (SWT).

3. Mae'r canlyniadau wedi'u crynhoi yn Atodlen I a thros gyfnod 3 blynedd yr adolygiad o wariant, bydd pwysau'n agosáu at £1.6 biliwn. Byddai gwariant refeniw net o £8.3 biliwn yn y flwyddyn ariannol gyfredol angen cynyddu 6.6% y flwyddyn nesaf a 5.5% yn y ddwy flynedd wedyn i gyrraedd £9.9 biliwn erbyn diwedd cyfnod yr adolygiad o wariant.

4. Fodd bynnag, mae heriau dybryd yn y flwyddyn ariannol hon. Mae Atodlen II yn dangos bod pwysau ariannol yn cyfrannu at orwariant disgwyliedig o £184 miliwn. Mae bylchau cyllid ar gyfer materion fel cyfraniadau yswiriant gwladol wedi cael effaith sylweddol. Fodd bynnag, ffactorau ynghlwm â galw sy'n gyfrifol am gyfran sylweddol ohonynt. Mae gofal preswyl i blant ac anghenion dysgu ychwanegol yn cyfrif am dros un rhan o dair o'r gorwariant yn ystod y flwyddyn, a newidiadau deddfwriaethol yn y gorffennol ac yn ddiweddar yn cyfrannu'n helaeth at hynny.

5. Buddsoddi yng ngwasanaethau Cynghorau yw un o'r ychydig feysydd lle gall llywodraeth ganolog gael yr effaith fwyaf o wariant ataliol. Mae gwaith y rhanbarthau Marmot, cydweithio ar ymchwil ar benderfynyddion iechyd[1], Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a mentrau Awdurdodau Lleol unigol yn dechrau casglu sail sylweddol o dystiolaeth ynghyd er mwyn buddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus lleol.

6. Cynghorau sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer cymunedau llewyrchus. Maent yn cyffwrdd bywydau pawb – yn enwedig y rhai mwyaf diamddiffyn. Cynghorau sy'n darparu'r gwasanaethau lles ac atal cenedlaethol sy'n tynnu'r pwysau oddi ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Maent yn cyflogi dros 120,000 o bobl, yn cynnwys 20,000 o athrawon, sy'n darparu cyflogaeth i un rhan o ddeg o'r

[1] Health determinants research collaborations | NIHR

gweithlu. Ynghyd â'r gwariant o £5.5 biliwn ar nwyddau a gwasanaethau, mae pob Cyngor yn gweithredu fel calon eu twf economaidd lleol.

7. Mewn blynyddoedd diweddar, mae llawer o'r pwysau o ganlyniad i fylchau cyllid wedi'i drosglwyddo i aelwydydd Cymru, a Threth Cyngor cyfartalog wedi cynyddu mwy na 22%[2] (a'r uchaf yn 29%) dros y tair blynedd ddiwethaf. Gyda'r argyfwng costau byw, mae hyn yn annymunol ac yn anghynaladwy i deuluoedd sy'n gweithio'n galed sydd, yn naturiol, yn cwyno am dalu mwy a chael llai o wasanaeth.


8. Mae posib' amcangyfrif y bwlch yn y gyllideb a'i effaith dan nifer o senarios sydd i'w gweld isod. Mae'r lefelau o Dreth y Cyngor isod yn adlewyrchu beth fyddai ei angen i lenwi'r bylchau cyllidebol:

| Cynnydd i'r Setliad | Bwlch Cyllidebol (£m) | Cyfanswm cynnydd i Dreth y Cyngor (%) | Toriadau swyddi cyfatebol |
|---|---|---|---|
| 2.0% neu £125m | £436m | 22% | 14,000 |
| 3.0% neu £187m | £373m | 19% | 12,000 |
| 4.0% neu £249m | £311m | 15% | 10,000 |
| 5.0% neu £312m | £249m | 12% | 8,000 |
| 7.0% neu £437m | £124m | 6% | 4,000 |
| 9.0% neu £560m | 0 | 0 | 0 |

## Trosolwg

9. Mae amcangyfrif y pwysau ar gyfer 2026–27 o £560 miliwn ychydig mwy na £100 miliwn yn uwch na'r amcangyfrif yn arolwg y llynedd. Byddai llenwi'r bwlch yn gofyn am gynnydd i wariant o ychydig llai na 7% o wariant refeniw net. Mae'r pwysau hwn yn gostwng i £486 miliwn yn 2027–28 ac yn cynyddu ychydig i £512 miliwn yn 2028-29. Fodd bynnag, byddai'r cynnydd yn parhau i olygu bod gwariant yn cynyddu 5.5% yn y blynyddoedd hynny, ac erbyn diwedd 2028–29, byddai bron un rhan o bump yn uwch nag yw ar hyn o bryd.

**Ffigur 1:** Pwysau cyllidebol yn ôl gwasanaeth, 2026–27 i 2028–29, £000oedd




Ffynhonnell: Arolwg Cymdeithas Trysoryddion Cymru 2025


[2] Cynnydd blynyddol mewn treth gyngor band D gyfartalog, yn ôl blwyddyn

10. Mae'r pwysau y flwyddyn nesaf yn sylweddol uwch na faint y byddem fel arfer yn disgwyl ei weld. Galw a chyfraniadau YG heb eu hariannu sy'n gyfrifol am yr amcangyfrifon uwch na'r disgwyl. Mae Ffigwr 1 uchod yn dangos sut mae'r pwysau wedi'i rannu dros y meysydd gwasanaeth bras. Mae gofal cymdeithasol yn cyfrif am 36% (£201 miliwn) o bwysau yn 2026–27, mae ysgolion yn cyfrif am 24% (£137 miliwn) o'r pwysau ac mae gwasanaethau eraill Awdurdodau Lleol yn cyfrif am y 40% sy'n weddill (£223 miliwn). Mae'r dadansoddiad llawn i'w weld yn Atodlen I. Gyda'i gilydd, mae'r pwysau sy'n cronni yn y system yn gyfanswm o £1.559 biliwn, a'r bwlch yn y gyllideb sy'n deillio o hynny yn golygu bod y rhagolygon yn hynod o heriol a bydd yr opsiynau ar gyfer gwasanaethau lleol yn annymunol.

11. Mewn llythyr dros yr haf i arweinwyr gwleidyddol yn y Senedd, fe wnaeth arweinyddiaeth CLILC fynegi ei phryder ynglŷn â pharatoadau am gyllideb dreigl o 2% yn 2026–27. Bydd mynd i'r afael â phwysau o £560 miliwn, heb gyllid ychwanegol dros 2%, yn gofyn am gyfuniad o gynnydd uchel i dreth y Cyngor a thoriadau i wasanaethau ac a cholli swyddi. Mae'r bwlch yn gyfwerth â chynnydd o 22% yn Nhreth y Cyngor, neu golli bron i 14,000 o swyddi[3]. I'r perwyl hwnnw, erfynnir ar yr holl bleidiau gwleidyddol i gydweithio fel bod y Senedd yn cymeradwyo cynnig am gyllideb sy'n blaenoriaethu gwarchod gwasanaethau lleol ac yn osgoi neu'n lleihau canlyniadau posib' o'r fath.

12. Prif amcan arolwg Cymdeithas Trysoryddion Cymru yw nodi a chrynhoi'r wybodaeth sydd mewn Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig. Mae ffigur 2 isod yn crynhoi pwysau cyllidebol dros 3 blynedd hyd at 2028–29 o dan 4 prif bennawd: chwyddiant cyflogau, chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau, costau comisiynu (mewn gofal cymdeithasol) a galw.

**Ffigur 2:** Pwysau Cyllidebol yn ôl math, 2026–27 a 2028–29, £000oedd




Ffynhonnell: Arolwg Cymdeithas Trysoryddion Cymru 2025

[3] Mae Treth y Cyngor (net o Gynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor) yn £2.009bn (Ffynhonnell: Datganiadau Cyfrif Refeniw Llywodraeth Cymru) Mae costau swydd arferol wedi'u hamcangyfrif yn £31,000 (gan gynnwys argostau).

13. Mae galw yn amlwg yn elfen sylweddol o’r pwysau yn y tair blynedd, ac yn cyfrif am 41% o gyfanswm y pwysau yn 2026–27, sef £232 miliwn. Mae gofal cymdeithasol i blant ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn aml yn cael eu crybwyll yn yr ymatebion fel y gwasanaethau lle mae’r pwysau mwyaf. Mae elfen y galw o fewn y pwysau’n disgyn i tua £178 miliwn yn y flwyddyn ariannol nesaf ac yn cynyddu ychydig i £180 miliwn y flwyddyn wedyn.

14. Y costau chwyddiant sy’n weddill sy’n cyfrif am 59% o bwysau’r flwyddyn nesaf. Costau comisiynu, ynghyd â chwyddiant ynghlwm â chyflogau ac fel arall yw’r costau chwyddiant sylfaenol sydd oll yn anochel ac yn gorfod cael eu talu i aros yn yr unfan. Mae’r rhain yn cyfrif am ychydig dros £328 miliwn yn 2025–26 ac yn disgyn i oddeutu £308 miliwn yn y flwyddyn ariannol nesaf, cyn dychwelyd i £332 miliwn yn y flwyddyn wedyn. Cydnabyddir bod rhywfaint o’r pwysau yn deillio o benderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth y DU i ariannu ond cyfran o’r cynnydd i YG cyflogwyr yn y sector cyhoeddus a pheidio â’i ariannu ar gyfer sefydliadau eraill, fel cyrff wedi’u comisiynu sy’n darparu gwasanaethau ar ran llywodraeth leol ac yn disgwyl i Gynghorau dalu’r gwahaniaeth.


15. Mae dyfarniad cyflog 2025/26 y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer gwasanaethau llywodraeth leol, a gyflwynodd gynnydd o 3.2% i bob pwynt colofn gyflog, yn ychwanegu at y pwysau ariannol cynyddol mae Awdurdodau Lleol Cymru’n ei wynebu. Mae’r cynnydd hwn yn dilyn cynnydd o 2.5% yn 2024/25 ac yn adlewyrchu trefn o gynnydd i setliadau cyflog y mae’n rhaid i Gynghorau lleol eu talu o fewn cyllidebau sydd eisoes dan straen. Er mai nod y cynnydd cyflog yw cefnogi staff ymysg heriau costau byw, mae’n is na’r gyfradd chwyddiant gyfredol o 3.8%, a'r tu ôl i setliadau eraill yn y sector cyhoeddus fel y GIG (3.3%) ac Awdurdodau Lleol yr Alban (4%), a allai greu mwy o drafferthion recriwtio a chadw staff.

16. Mae dileu Pwynt Colofn Gyflog 2 o fis Ebrill 2026 yn arwydd o fwy o newidiadau strwythurol a allai olygu ailraddio ac adolygu colofnau cyflog, gan ychwanegu at gymhlethdod cynllunio’r gweithlu. Yng nghyd-destun Awdurdodau Lleol Cymru, sydd eisoes yn mynd i’r afael â bylchau cyllid, rhagor o alw ar wasanaethau a phwysau chwyddiant, mae effaith yr holl ddyfarniadau cyflog gyda’i gilydd yn creu her sylweddol. Heb gynnydd cyfatebol yn y cyllid gan y llywodraeth ganolog, gallai Cynghorau orfod gwneud penderfyniadau anodd am ddarpariaeth gwasanaeth, lefelau staffio a dyfarniadau cyllidebol i dalu’r cynnydd mandadol hwn i gyflogau.

17. Yn y flwyddyn ariannol hon, mae’n dod yn amlwg bod pwysau a gorwariant i’w disgwyl yn y flwyddyn sy’n fawr yn ôl safonau’r gorffennol – cyfanswm o £184 miliwn. Mae hyn wedi’i nodi’n fwy manwl gyda dadansoddiad llawn yn Atodlen II. Mewn rhai Awdurdodau, mae'r gorwariant hwn wedi mynd yn ddifrifol dros ben gydag ystod o fesurau'n cael eu rhoi ar waith i fantoli cyllidebau. O ran dadansoddiad yn ôl gwasanaethau, gofal cymdeithasol yw 38% o’r gorwariant, neu £69 miliwn, gyda gofal plant drud a galw cynyddol am ofal cymdeithasol oedolion yn cyfrif am y rhan fwyaf o’r costau afreolus. Mae addysg ac ysgolion yn cyfrif am swm tebyg o £71 miliwn, sydd wedi dyblu ers y llynedd. Mae gwasanaethau eraill Cynghorau’n cyfrif am £44 miliwn sydd ychydig yn llai chwarter cyfanswm y gorwariant.

18. Mae Ffigur 3 isod yn dangos mai galw yn hytrach na ffactorau ariannol a ffactorau eraill sy'n achosi'r gorwariant disgwyliedig. Mae'r bariau glas isod yn dangos elfennau o alw sy'n cyfrif am bron i 70% o'r cyfanswm. Eto, anghenion cymhleth sy'n gyfrifol am y mwyafrif helaeth o gostau.

**Ffigur 3:** Gorwariant disgwyliedig o fewn y flwyddyn 2025–26, £000oedd




Ffynhonnell: Arolwg Cymdeithas Trysoryddion Cymru 2025

19. Mae maint yr heriau ariannol mae Cynghorau eisoes wedi'u goresgyn, a'r rhai maent yn eu hwynebu yn y dyfodol, yn dra thebyg i'r rhai yn Lloegr. Dros y ffin, nid yw'n syndod bod cynaliadwyedd ariannol rhai Cynghorau yn cael ei brofi'n arw. Mae prawf clir o hyn gan fod nifer y Cynghorau sy'n ddibynnol ar Gefnogaeth Ariannol Arbennig gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi cynyddu i 30. Mae dros £1.5 biliwn wedi'i fenthyg i sicrhau eu cynaliadwyedd ariannol ar hyn o bryd. Mae maint yr ymyrraeth hon gan y Llywodraeth yn awgrymu y gallai'r risg o fethiant ariannol droi'n un systemig.

20. Mae'r broses o osod y gyllideb dros yr hydref yn dilyn Adolygiad o Wariant 2025 yn digwydd yng nghyd-destun amodau ariannol ac economaidd heriol. Ar yr un pryd, mae Llywodraeth newydd y DU wedi cyflwyno rhaglen uchelgeisiol i ddiwygio ac adfer elfennau allweddol o wasanaethau cyhoeddus. Mae ein cyflwyniad wedi'i anelu at wella bywydau'r rhai sydd yn ein cymunedau ond hefyd at helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei rhaglen yng nghyd-destun yr heriau ariannol hyn. Mae'r 22 Cyngor, y Gwasanaethau Tân ac Achub a'r Parciau Cenedlaethol yn allweddol i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru.

21. Fodd bynnag, ni allwn anwybyddu'r ffaith bod Cynghorau dan straen ariannol difrifol. Mae chwyddiant, pwysau ar gyflogau a galw cynyddol a chymhlethdod yr anghenion yn golygu y bydd Cynghorau'n wynebu bwlch ariannol sylweddol dros y 3 blynedd nesaf. Mae angen edrych ar hyn yng nghyd-destun yr amcangyfrif o £3 biliwn o doriadau ac arbedion effeithlonrwydd mae Cynghorau wedi'u gwneud ar wariant gwasanaethau ers 2009–10. Mae hyn fwy neu lai'n gyfwerth â chost bresennol y system gofal cymdeithasol ar draws Cymru. Pe bai gwariant gwasanaethau'r Cynghorau wedi cynyddu yn unol â chwyddiant, twf cyflogau, demograffeg a galw ers 2009–10, byddai wedi bod un rhan o dair yn uwch nag yr oedd mewn gwirionedd yn 2025–26. Yn sgil hynny, mae manteision i'r GIG a fyddai

wedi deillio o'r gwariant hwnnw ar ofal cymdeithasol wedi'u colli hefyd. Mae Cynghorau wedi gorfod ysgwyddo'r pwysau mawr hyn drwy doriadau i wasanaethau neu arbedion effeithlonrwydd. Dim ond cragen sydd ar ôl o lawer o wasanaethau a ddarperir ar ddisgresiwn, ac effaith ar wasanaethau gweledol/mewn mannau penodol y mae trigolion yn eu profi bob dydd yn eu cymunedau.

22. Mae gweddill y papur hwn yn nodi ein 5 maes blaenoriaeth a gafodd eu datgan mewn llythyr diweddar at Lywodraeth Cymru ac sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau a nodwyd gan y Prif Weinidog y llynedd.

- Maes Blaenoriaeth 1 – Ysgolion ac Addysg
- Maes Blaenoriaeth 2 – Gofal Cymdeithasol ac Atal
- Maes Blaenoriaeth 3 – Tai a Digartrefedd
- Maes Blaenoriaeth 4 – Datblygu Economaidd Rhanbarthol a Lleol
- Maes Blaenoriaeth 5 – Cyfalaf a Buddsoddi


Maes Blaenoriaeth 1 – Ysgolion ac Addysg

23. Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, fe wnaeth yr Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg gymeradwyo cynlluniau buddsoddi 9 mlynedd newydd gwerth cyfanswm o £4.5 biliwn i ysgolion a £0.9 biliwn i golegau, gan adeiladu ar y £2 biliwn a fuddsoddwyd eisoes. Cafwyd £35 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer costau cynnal cyfalaf a thrwyddedau Microsoft, a oedd yn dangos ymatebolrwydd i anghenion oedd yn dod i'r amlwg. Mae pob prosiect Band A bellach wedi'u cwblhau, gyda thros £4 miliwn wedi'i ryddhau mewn taliadau cadw terfynol, ac mae'r rhaglen yn parhau i arwain ar fentrau Carbon Sero Net, a phrosiectau yn mynd y tu hwnt i dargedau 2030 ac yn integreiddio technolegau adnewyddadwy fel paneli ffotofoltäig.

24. Mae Cynghorau wedi dweud bod £71 miliwn o bwysau yn ystod y flwyddyn wedi'i ychwanegu at gyllidebau ysgolion ar gyfer 2025–26. Er bod dros 55% o'r gorwariant yn y flwyddyn ariannol flaenorol o ganlyniad i bwysau chwyddiant i "aros yn yr unfan" (cyflogau a chwyddiant), ar gyfer 2025–26, 11% yn unig yw'r ffigwr. Ar gyfer 2025–26, mae'r rhan fwyaf o'r pwysau (dros 52%) yn deillio o alw, ac Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu nodi yn y rhan fwyaf o achosion. Yn dwysáu'r her mae'r gwirionedd bod cronfeydd wrth gefn wedi'u defnyddio i raddau helaeth. Mae nifer o adroddiadau'n dangos cynnydd yn niffygion ariannol ysgolion, sy'n golygu nad oes cronfeydd wrth gefn ar gael fel y byffer ariannol roedden nhw'n arfer eu darparu. Caiff hyn ei drafod yn fwy manwl isod ym mharagraffau 27–29.

25. Mae'r pwysau mae ysgolion yn ei wynebu yn y dyfodol yn peri pryder. Mae ffigur 4 isod yn dangos elfennau'r amcangyfrif o £137 miliwn o bwysau yn 2026–27. Mae £115 miliwn arall yn 2027–28 a £122 miliwn yn 2028–29. Bydd angen i wariant ar addysg gynyddu o £3.3 biliwn yn y flwyddyn ariannol hon i £3.7 biliwn erbyn 2028–29 – diwedd cyfnod yr adolygiad o wariant.

**Ffigur 4:** Elfennau o bwysau ar ysgolion, 2026–27, £000oedd




Ffynhonnell: Arolwg Cymdeithas Trysoryddion Cymru 2025

26. Mae arolygon blaenorol wedi dangos bod cyflogau'n cyfrif am tua 80% o'r pwysau ar ysgolion ym mhob un o'r blynyddoedd hyn, ond mae'r arolwg hwn yn dangos ei fod tua 60%, sy'n gyfwerth ag £84 miliwn ar gyfer 2026–27. Mae hyn eto yn dystiolaeth o'r pwysau cynyddol oherwydd galw ar gyllidebau addysg. Mae pwysau ADY bellach yn cyfrif am ychydig dros chwarter y pwysau ar ysgolion yn 2026–27. Mae hon yn thema sy'n codi dro ar ôl tro yn yr ymatebion i'r arolwg wrth i gyllidebau ysgolion wynebu pwysau di-baid oherwydd gofynion ADY. Roedd un ymateb yn dweud:

*"Mae'r diffyg ariannol yn ystod y flwyddyn tua £10.5 miliwn ac mae wedi'i hybu drwy bwysau ADY o alw ymhell y tu hwnt i'r cyflenwad, sydd i'w weld nid yn unig mewn lleoliadau y tu allan i ysgolion yr ALl, ond o fewn ysgolion prif ffrwd hefyd. Y cynnydd mwyaf sylweddol mewn ADY yw Iechyd a Lles Emosiynol yn bennaf, ond mae niferoedd ag anghenion cymhleth hefyd ar gynnydd."*

27. Nid darpariaeth ADY yn unig sy'n achosi straen, ond y costau ehangach sy'n dod o ganlyniad i adnabod yr anghenion. Mae'r galw cynyddol am addysg ADY wedi arwain at gynnydd cyfatebol mewn contractau cludiant o'r cartref i'r ysgol. Mae'r cynnydd hwn wedi'i gymell yn bennaf gan ofynion penodol disgyblion ADY sydd yn aml yn gymhleth, a llawer o'r rheiny angen cludiant wedi'i deilwra ar eu cyfer. Oherwydd cyfyngiadau logisteg, a bod natur y gefnogaeth yn unigol iawn, mae trefniadau cludiant yn aml yn ymwneud â grwpiau bach o ddisgyblion neu, mewn ambell achos, siwrneiau i un mewn tacsi preifat. Mae'r ddarpariaeth hon yn gostus.

28. Thema gyson arall yw bod cyllidebau ysgolion yn dechrau o sefyllfa sydd eisoes yn ansicr gan fod lefelau cronfeydd wrth gefn wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae llymder y sefyllfa i'w weld yn yr ymateb isod:

*"Mae diffyg ariannol cronfeydd wrth gefn ysgolion yn Ebrill 2025 yn £4 miliwn. Mae ysgolion yn rhedeg ar ddiffyg cylchol yn y gyllideb o £2.6 miliwn yn seiliedig ar fodelau ariannu cyfredol. Mae hon yn sefyllfa anghynaliadwy dros y tymor canolig. Er bod cynlluniau adfer cyllidebau ar waith i bob ysgol sydd mewn diffyg, bydd y lefelau o ddiffyg, ynghyd â'r heriau o ran ADY, ymddygiad a phresenoldeb yn golygu y bydd cynlluniau adfer yn cymryd 8 i 10 mlynedd i gyflawni eu nod. Yn y cyfamser, mae'r diffygion sydd wedi cronni'n rhoi straen aruthrol ar adnoddau ar y fantolen.*

29. Mae goblygiadau cronfeydd wrth gefn sy'n lleihau o hyd wedi'u nodi'n glir, a'r ymatebion yn nodi:

- *"Mae cyllidebau ysgolion yn rhagweld cyfanswm o dros £5 miliwn o ddiffyg ar ddiwedd 2025–26, sy'n anghynaladwy, ac mae ysgolion yn dweud nad oes modd iddynt wneud rhagor o doriadau a darparu'r cwricwlwm / bodloni cymarebau staffio statudol neu ddiogel"*
- *<Mae> ysgolion ar hyn o bryd yn ddibynnol ar ddefnyddio tua £3.5 miliwn o falansau i fantoli cyllidebau. Nid yw hyn yn gynaliadwy ac mae angen cyllid parhaol ar ei gyfer. Heb hwnnw, bydd yn rhagor yn colli eu swyddi a bydd risg i feintiau dosbarthiadau fod yn uwch na lefelau statudol*

30. Mae gwir lefel diffygion ysgolion wedi'i grybwyll mewn nifer o'r datganiadau. Dyma mae llond llaw'n ei ddweud:

- *Mae ysgolion yn parhau i dynnu ar eu cyllidebau wrth gefn a bellach mae cyfanswm o £1.1 miliwn o ddiffyg, a disgwyl i hwnnw dyfu i £1.6 miliwn yn 2025–26, ar sail cyllidebau ysgolion a gyflwynwyd ym mis Mai 2025*
- *Mae balansau ysgolion yn parhau i ostwng, a'r rhan fwyaf o ysgolion yn gosod cyllidebau sy'n fwy na'r cyllid maent yn ei gael – roedd 14 o 61 o'n hysgolion ni â balansau mewn diffyg yn 2025–26*
- *Mae ysgolion wedi bwyta drwy falans dros ben o £15 miliwn i ddiffyg o £2 filiwn ac maent yn disgwyl y bydd gorwariant o £9 miliwn yn ystod blwyddyn 25/26. Nid yw'n gredadwy y byddwn ni'n gallu torri mwy ar gyllideb y maes mwyaf o wariant Cynghorau, ac mae'n anodd gweld sut y gallwn ni osod cyllideb realistig heb gyllid ychwanegol*
- *Mae 33 o ysgolion cynradd, 6 o ysgolion uwchradd a 2 ysgol arbennig (69.5% o'r holl ysgolion) yn darogan balans mewn diffyg ar ddiwedd y flwyddyn*
- *Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023/24, roedd 15 ysgol gynradd (£0.559 miliwn ar y cyd) a 6 ysgol uwchradd (£2.9 miliwn ar y cyd) yn cario sefyllfa o ddiffyg yn y gyllideb ymlaen. Ar 31 Mawrth 2025, mae'r sefyllfa hon wedi newid i 18 ysgol gynradd (£1.035 miliwn ar y cyd) a 9 ysgol uwchradd (ac ysgol ganol) (£5.3 miliwn). Ar gyfer 2025/26, rydym ni'n disgwyl i'r rhif hwn gynyddu a bod mewn sefyllfa o ddiffyg cyffredinol*
- *Mae'r rhan fwyaf o'n hysgolion ni'n ei chael yn anodd iawn gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 25/26 a gallu rhoi cynlluniau adfer diffyg ariannol ar waith heb golli staff, a fydd yn effeithio ar ddysgu, meintiau dosbarthiadau, ac ati*
- *Fe ostyngodd cyfanswm cyllidebau ysgolion £3.023 miliwn yn ystod 2024–25 i falans negyddol o £619,000 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Ar ddechrau 2025–26, mae'r rhagamcanion yn awgrymu cyfanswm balans mewn diffyg ar gyfer cyllidebau dirprwyedig ysgolion o £5.206 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn*

31. Mae llawer o Gynghorau'n pwysleisio bod angen buddsoddiadau cyfalaf sylweddol ar gyfer adeiladau ysgolion, gan nodi nad oes digon o arian yn y system i ganiatáu am waith mawr, ac un Awdurdod yn dweud:

    *"Mae buddsoddi'n gyffredinol mewn cynnal a chadw adeiladau ysgolion (cyfrifoldeb sydd wedi'i ddirprwyo i gyrff llywodraethu ysgolion) wedi'i effeithio gan gyfyngiadau cyllid mewn ysgolion Er mwyn lleihau problemau'r llwyth o waith cynnal a chadw sydd i'w wneud, rydym ni wedi buddsoddi mewn gwaith diogelu brys ar draws y sir, ond i gyflawni ein hymrwymiadau trawsnewid cyfalaf cyfredol a buddsoddi i gyrraedd statws sero net ar draws yr ystâd ysgolion, rydym wedi brasamcanu bod angen dros £400 miliwn o fuddsoddiad. Byddai benthyca i gefnogi'r lefel hon o fuddsoddiad yn galw am gyfraniadau refeniw blynyddol dros £25 miliwn, lefelau ymhell y tu hwnt i'r hyn sy'n fforddiadwy"*

32. Cafwyd sylwadau ynghylch sut y bydd angen adolygu cynaliadwyedd ysgolion bach wrth i bwysau ariannol barhau. Fodd bynnag, nodwyd hefyd y gallai cost gynyddol cludiant i ysgolion cyfagos negyddu'r arbedion a wneir, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig:

    *"Mae gan y sir rywfaint o ysgolion llai ar ôl, ac mae angen adolygu cynaliadwyedd y rhain gan fod pwysau ariannol yn parhau, ond nid yw'r Cod Ad-drefnu Ysgolion*

*yn gwneud hyn yn syml bob tro. Mae cost uwch cludiant i ysgolion cyfagos yn dadwneud rhywfaint o’r arbedion sydd wedi’u cyflawni, yn enwedig gan ein bod ni’n sir wledig. Rhaid pwysleisio’r cryfder gwleidyddol i wneud penderfyniadau sydd ei angen i gau ysgolion”*

33. Mae Awdurdodau Lleol yn gwneud popeth o fewn eu gallu i ysgafnhau pwysau costau, fel y dywed un ymateb:

    *“Mae pwysau ar gludiant o’r cartref i’r ysgol yn parhau ond heb ei gynnwys ar hyn o bryd yn sgil aros i gadarnhau niferoedd at fis Medi ac i brisiau contractau gael eu cadarnhau ar gyfer contractau a fydd yn cael eu tendro eto. Mae prosesau matrics newydd ar waith i werthuso’r math mwyaf priodol o gludiant”*

34. Er hynny, mae gofyn eisoes ar ysgolion i leihau eu cyllidebau, a hynny yn wyneb y sefyllfa ddybryd sydd ohoni lle mae balansau’n gostwng a £374 miliwn o bwysau costau yn y tair blynedd nesaf. Nododd un Cyngor, yn rhan o’r strategaeth ariannol tymor canolig, fod ysgolion wedi cael targed arbedion effeithlonrwydd o 1% ar gyfer 2025–26. Heb gyllid ychwanegol, mae rhagor o Awdurdodau’n debygol o orfod gosod targedau arbedion tebyg i’w hysgolion a chenedlaethau’r dyfodol a fydd yn teimlo effaith hynny.


Maes Blaenoriaeth 2 – Gofal Cymdeithasol ac Atal

35. Mae gofal cymdeithasol yn rhan hollbwysig o gefnogi unigolion, teuluoedd a chymunedau ar hyd a lled Cymru. Mae'n achubiaeth hanfodol i rai sydd ag anghenion gofal a chymorth, a hefyd yn gonglfaen i waith atal ac ymyrraeth gynnar, gan helpu pobl i fyw'n annibynnol, cadw cysylltiad ac osgoi argyfyngau. I oedolion, mae gofal cymdeithasol yn galluogi pobl hŷn a rhai sydd ag anableddau neu anghenion iechyd meddwl i aros yn eu cartrefi a'u cymunedau, sy'n lleihau faint sydd angen mynd i'r ysbyty ac yn hwyluso rhyddhau pobl o ofal acíwt yn amserol. I blant a theuluoedd, mae'n rhoi diogelwch, sefydlogrwydd a chefnogaeth sy'n gallu atal sefyllfaoedd rhag datblygu'n ymyraethau statudol costus. Drwy hyrwyddo lles, gwytnwch a chynhwysiant, mae gofal cymdeithasol yn lleihau pwysau ar y GIG, gofal cychwynnol ac eilaidd ac yn sicrhau gwell canlyniadau iechyd i ddinasyddion.

36. Fodd bynnag, dim ond trwy fuddsoddi parhaus mae modd cyflawni'r potensial ataliol hwn. Mae'r arolwg yn dangos y pwysau sylweddol yn ystod y flwyddyn sy'n wynebu gwasanaethau oedolion a phlant. Ar hyn o bryd, mae'r gorwariant disgwyliedig yn ystod y flwyddyn 2025-26 yn £58 miliwn. Mae'r heriau ariannol sylweddol hyn yn parhau yn 2026–27 a thu hwnt, ac yn adeiladu ar orwariant o £106 miliwn a gafodd ei ddarogan yr adeg yma y llynedd ar gyfer 2024–25 a £107 miliwn yn 2023–24.

37. Yn y flwyddyn ariannol nesaf, mae disgwyl pwysau o £201 miliwn sy'n cyfateb i 7.2% o'r gwariant refeniw net. Mae ffigur 5 isod yn dangos dadansoddiad o'r pwysau sylweddol hwn. Mae costau comisiynu, chwyddiant cyflogau a chwyddiant fel arall yn cyfrif am £126 miliwn (63%). Mae'r gweddill yn gyfan gwbl oherwydd galw, sy'n cyfrif am £70 miliwn (35%) a phwysau costau eraill o £5 miliwn (2%).

**Ffigur 5:** Cyfansoddiad pwysau gofal cymdeithasol, 2026–27, £000oedd




Ffynhonnell: Arolwg Cymdeithas Trysoryddion Cymru 2025

38. Mae rhagor o gynnydd o £201 miliwn (6.8%) yn 2027–28 a £211 miliwn (6.7%) yn 2028–29. Bydd angen i wariant ar ofal cymdeithasol gynyddu o £2.8 biliwn yn y flwyddyn ariannol hon i £3.4 biliwn erbyn 2028–29. Erbyn diwedd cyfnod yr adolygiad o wariant, bydd 22% yn uwch nag y mae ar hyn o bryd. Fel mae pethau ar hyn o bryd, bydd yn cyrraedd dros £4 biliwn erbyn 2030–31 ac yn disodli addysg fel y gwasanaeth llywodraeth leol mwyaf o ran pŵer gwario arian.

39. Ar draws y Cynghorau, mae gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i wynebu heriau ariannol dirfawr a rhai sy'n gwaethygu, yn sgil cyfuniad o alw cynyddol, anghenion mwy cymhleth, ansefydlogrwydd yn y gweithlu, a phroblemau cyllid oherwydd costau cynyddol gwasanaethau maent yn eu comisiynu, fel y cynnydd mewn Yswiriant Gwladol nad oedd wedi'i ariannu'n llawn gan y Llywodraeth ganolog. Mae Cynghorau'n dweud bod pwysau mawr yn ystod y flwyddyn ar draws gwasanaethau plant ac oedolion, a nifer o Gynghorau'n dweud bod gorwario sylweddol er bod y meysydd gwasanaeth hyn yn cael eu gwarchod rywfaint, a nifer o Gynghorau'n dweud bod gwasanaethau cymdeithasol wedi cael cynnydd i'w cyllidebau gan eu Cyngor oherwydd galw am wasanaethau a chostau uwch. Mae risgiau ychwanegol hefyd, fel y rhai sy'n ymwneud â chaffael a gweithredu system newydd ar gyfer System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru a allai arwain at orfod talu costau ychwanegol.

40. Mewn gwasanaethau plant, mae cost lleoliadau y tu allan i'r sir yn parhau i fod yn faich ariannol mawr. Er enghraifft, mae un Cyngor yn rhagweld gorwariant o £2.3 miliwn yn 2025/26, sy'n dilyn gorwariant o £2.1 miliwn yn y flwyddyn flaenorol, er gwaethaf ymdrechion i reoli costau a chadw plant yn y sir. I Gyngor arall, er iddo roi cynnydd o £2 filiwn i gyllideb ei wasanaethau plant ar gyfer 2025-26 (cynnydd o 21.7%), rhagwelir y bydd y gwasanaeth yn gorwario o £1.5 miliwn, wedi'i yrru'n bennaf gan gostau cynyddol lleoliadau. Ar draws y Cynghorau, mae cost gyfartalog lleoliadau preswyl wedi codi oherwydd mwy o gymhlethdod o ran anghenion a'r her o ddod o hyd i leoliadau priodol.

41. Mae hyn wedi cael ei waethygu gan raglen Dileu Elw Llywodraeth Cymru gyda nifer o Gynghorau yn dweud bod hyn wedi arwain at rai darparwyr preifat yn tynnu'n ôl o'r farchnad. Mae Cynghorau'n parhau i ddatblygu darpariaeth fewnol newydd, ond mae hyn wedi arwain at gostau cynyddol, gydag un Cyngor yn nodi bod y costau sy'n cydredeg wrth wneud hynny'n creu pwysau ariannol sylweddol. Mae lleoliadau brys a diffyg gofalwyr maeth hefyd wedi'u nodi'n benodol fel rheswm sy'n cynyddu costau. Mae rhai plant angen cyfraddau staffio dwys a all arwain at gostau o hyd at £1 miliwn y plentyn bob blwyddyn. Mae'r diffyg cyllid llawn gan y Swyddfa Gartref i dalu am gostau gofalu am blant sy'n ceisio lloches ar eu pennau eu hunain fel rhan o'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol, yn cynnwys costau gadael gofal, yn ychwanegu at y baich ariannol hwn.

42. Mae straen tebyg ar wasanaethau oedolion. Mae un Cyngor yn nodi ei fod wedi gweld cynnydd o 15% yn y galw ar draws yr holl grwpiau cleientiaid o fewn ei wasanaethau oedolion. Mae gwasanaethau gofal cartref, anableddau dysgu ac iechyd meddwl yn cael eu nodi'n gyson fel meysydd lle mae galw cynyddol a gorwariant, ac un Cyngor yn nodi pwysau o £2.7 miliwn mewn gofal cartref yn unig.

43. Gwnaed cyfeiriad penodol at wasanaethau iechyd meddwl, yn enwedig o ran cyfrifoldebau'r Cynghorau o dan ôl-ofal Adran 117 a chamu i lawr o leoliadau

ysbyty. Yn ogystal â hyn mae'r ddeddfwriaeth iechyd meddwl sy'n effeithio ar breswyliaeth arferol, sy'n golygu bod unigolion sy'n cael eu cadw o fewn ardal wedyn yn dod yn gyfrifoldeb ar Gyngor yr ardal honno gan gynyddu'r galw a'r cymhlethdod ar gyfer byw â chymorth.

44. Roedd y Cynghorau'n pwysleisio effaith y penderfyniadau roedd maes iechyd yn eu gwneud yn gyson, a'r effaith yn golygu bod y Cynghorau yn aml yn gorfod ysgwyddo costau iechyd. Mae nifer o ymatebion yn cyfeirio at anawsterau wrth gael cyfraniadau at Ofal Iechyd Parhaus a Gofal Nyrsio wedi'i Ariannu. Er enghraifft, nododd un Cyngor ddiffyg blynyddol o £600,000 mewn cyllid Gofal Nyrsio wedi'i Ariannu, rhwng 300 o leoliadau, sy'n cael ei dalu o gyllidebau craidd. Mae Cyngor arall yn dweud bod darparwyr yn ceisio croes-gymhorthdal gan ofal cymdeithasol yn gysylltiedig â chostau wedi'u tanariannu ynghlwm â Gofal Iechyd Parhaus a Gofal Nyrsio wedi'i Ariannu. Mae'r Cyngor yn nodi bod pwysau yn ystod y flwyddyn o oddeutu £650,000 yn ymwneud â Ffioedd Atodol y mae darparwyr Cartrefi Gofal Preswyl a Gofal Nyrsio'n eu codi, gyda dros 100 o drefniadau atodol wedi'u cytuno ers mis Ionawr 2025. Mae hon yn broblem sydd angen ei datrys fel rhan o waith integreiddio system gofal iechyd a chymdeithasol yn llwyddiannus ac yn effeithiol.

45. Mae Cynghorau hefyd yn nodi oedi a diffyg pecynnau adsefydlu sy'n golygu bod costau'n cael eu trosglwyddo o'r GIG i Awdurdodau Lleol. Dywedodd un Cyngor eu bod yn wynebu pwysau ariannol oddeutu £850,000 yn ymwneud â'r hen wasanaethau iechyd wedi'u hariannu yn trosglwyddo i ofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys penderfyniad diweddar i ddirwyn cyllid i ben ar gyfer darpariaeth gymunedol Henoed Bregus eu Meddwl ac ailasesu gwasanaethau gofal preswyl arbenigol wedi'i Hariannu gan Iechyd (Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu).

46. Mae heriau â'r gweithlu hefyd yn parhau. Mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol, heb ddarparu digon o gyllid yn y setliad, a gwahaniaethau tâl yn creu pwysau ychwanegol, yn enwedig lle mae cyfraddau gweithwyr cefnogi tramor yn fwy na'r Cyflog Byw Gwirioneddol, sy'n amharu ar hierarchaeth cyflogau. Roedd y Cynghorau hefyd yn nodi lefelau uchel o salwch a blinder ymysg staff gan roi straen pellach ar gyllidebau a darpariaeth gwasanaeth. I rai, mae problemau recriwtio a chadw staff wedi arwain at ddibynnu ar staff asiantaeth, ac un Cyngor yn nodi dros £1 miliwn o orwariant o ganlyniad i ddefnyddio asiantaethau.

47. Mae anghenion buddsoddi cyfalaf hefyd yn dod i'r amlwg fel risg at y dyfodol. Mae Cynghorau'n dweud bod costau adeiladu cynyddol a diffyg digon o gontractwyr ar gael, sy'n effeithio ar ddarpariaeth isadeiledd gofal cymdeithasol. Mae un Awdurdod yn amcangyfrif bod angen tri chartref gofal preswyl newydd dros y 5 i 10 mlynedd nesaf, sy'n debygol o gostio oddeutu £15–20 miliwn o gyfalaf yr un, heb unrhyw gyllid ar eu cyfer ar hyn o bryd.

48. Wrth edrych tua'r dyfodol, mae'r Cynghorau'n disgwyl i'r pwysau hyn waethygu. Disgwylir i'r newid demograffig tuag at boblogaeth hŷn barhau i roi pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gydag angen cynyddol am ofal dementia arbenigol a gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig ag oedran. Mae amcangyfrifon yn nodi y bydd 1 o bob 4 o bobl yng Nghymru dros 65 oed erbyn 2038. Mae'r rhagolygon ariannol yn cael eu cymhlethu ymhellach gan ansicrwydd polisi a phwysau deddfwriaethol.

49. Mae gofyn i Gynghorau gyflawni mwy — fel gweithredu'r rhaglen Dileu Elw, ehangu gwasanaethau cymorth cynnar a chefnogi plant sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain — heb y lefelau angenrheidiol o gyllid i wneud hynny. Rhybuddiodd un Awdurdod fod llywodraeth leol, heb ariannu cyfrifoldebau newydd yn llawn, mewn perygl o fethu â darparu gwasanaethau craidd, heb sôn am fentrau newydd. Mynegodd eraill bryderon o ran peryglu enw da, cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol, gallu bodloni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn bwysicaf oll, yr effaith ar ddinasyddion a'r rhai sy'n derbyn neu angen gwasanaethau cymdeithasol sy'n aros yn hirach am wasanaethau neu sy'n gweld lefelau is o gefnogaeth.

50. Mae Cynghorau hefyd yn pryderu am gynaliadwyedd cyllid grant, fel y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a grantiau Dileu Elw – sawl un o'r rheiny i ddod i ben neu ostwng yn y blynyddoedd i ddod. Nododd un Cyngor y byddai colli £4 miliwn bob blwyddyn o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn effeithio'n ddifrifol ar ddarpariaeth gwasanaeth. Mae un arall yn dweud bod gwasanaethau cymdeithasol mewn un Cyngor yn ddibynnol ar oddeutu £50 miliwn o wahanol grantiau i weithredu, a mwyafrif y rhain wedi'u cadarnhau hyd at 31 Mawrth 2026 yn unig. Mae'r grantiau yn darparu ar gyfer gwaith cymorth cynnar ac atal sy'n ceisio ymyrryd yn gynnar i sicrhau gwell canlyniadau i bobl, hyrwyddo annibyniaeth a gwydnwch ac yn eu cadw rhag bod angen gwasanaethau statudol drud neu argyfwng – os bydd y grantiau hyn yn diflannu neu'n gostwng, bydd y pwysau costau ar wasanaethau statudol yn cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd nesaf.

51. Mae Cynghorau'n parhau i ddweud bod angen edrych ar uchafswm y pris wythnosol ar gyfer gwasanaethau ar wahân i rai preswyl, fel modd o adlewyrchu'n fwy eglur bod cost gofal ar gynnydd, a fyddai'n galluogi Cynghorau i adennill rhywfaint o'r costau, gan rybuddio y byddai gwasanaethau craidd mewn perygl heb gyllid cynaliadwy, ac y bydd hyn yn niweidio ymhellach ar wasanaethau hollbwysig a ddarperir yn ôl disgresiwn. Er i rywfaint o gyllid gael ei gyhoeddi yn 2024–25, yn cynnwys ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn dilyn ymgynghoriad ar y posibilrwydd o gynyddu'r pris, nid oedd hyn yn adlewyrchu'r incwm ychwanegol a fyddai wedi dod i law pe bai'r uchafswm pris wythnosol wedi'i gynyddu yn unol â rhai o'r opsiynau am gynnydd a oedd yn y papur ymgynghori, nac yn adlewyrchu'r pwysau chwyddiant a'r costau cynyddol a welwyd ers hynny.


52. Nid heriau cyllidebol uniongyrchol yn unig yw'r pwysau sy'n wynebu gwasanaethau cymdeithasol – arwyddion yw'r rhain o system sydd o dan straen sylweddol. Mae'r rhagolygon ariannol yn edrych yn fwyfwy ansefydlog, yn sgil mwy o alw, costau cynyddol, sefyllfa fregus y gweithlu, a ffynonellau cyllid ansicr. Mae Cynghorau'n gwneud popeth o fewn eu gallu i ymdopi â'r galw, sefydlogi'r gweithlu ac arloesi wrth ddarparu gwasanaeth, gan gefnogi GIG mwy effeithiol hefyd, ond heb fodel ariannu cynaliadwy, partneriaethau iechyd mwy cadarn a buddsoddiad hirdymor yn y gweithlu ac mewn isadeiledd, mae'r system mewn perygl o droi'n fwy bregus fyth.

Maes Blaenoriaeth 3 – Tai a Digartrefedd

53. Mae'r Cynghorau wedi gweld arwyddion cychwynnol gostyngiad derbyniol iawn yn nifer y bobl sydd mewn llety argyfwng dros dro, yn enwedig aelwydydd sydd â phlant dibynnol dros y 12 mis diwethaf, er bod y niferoedd ar y cyfan yn parhau i fod yn uchel. Mae niferoedd uchel o bobl, ac aelwydydd person sengl yn aml, yn parhau i fod yn chwilio am gefnogaeth a chymorth gan Gynghorau oherwydd digartrefedd neu'r perygl o fod yn ddigartref. Mae Cymru wedi parhau â'r ymagwedd "neb heb help" ynghlwm â digartrefedd – i bob pwrpas, yn ymestyn y trefniadau a roddwyd ar waith yn ystod yr argyfwng iechyd y cyhoedd yn barhaol mewn perthynas â darparu llety dros dro. Cefnogir y dull hwn gan Gynghorau, ond mae nifer yr aelwydydd sy'n cysylltu â'r Awdurdodau am gymorth wedi cynyddu ymhell y tu hwnt i'r niferoedd cyn y pandemig. Mae'r cynnydd parhaus hwn o rai'n datgan i Gynghorau eu bod yn ddigartrefedd yn golygu bod gwasanaethau digartrefedd craidd bellach yn aml yn delio ag argyfyngau yn unig ac yn methu â gweithio i atal digartrefedd. Roedd y sefyllfa hon yn cael ei chydnabod yn adroddiad Archwilio Cymru [Llety Dros Dro, argyfwng hirdymor? | Archwilio Cymru] wedi'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2025.

54. Mae'r galw wedi'i adlewyrchu yn y costau. Daw'r data yn ffigur 3 isod o ffurflenni cyllid Cynghorau i Lywodraeth Cymru dros gyfnod o 10 mlynedd, gyda ffurflenni'r 2 flynedd olaf o'r ffurflenni cyllideb (cyfrif refeniw) gan nad oes ffurflenni am y sefyllfa derfynol ar gael eto. Mae gwariant cyfredol net wedi cynyddu o £12.8 miliwn yn 2016–17 i £100.8 miliwn yn 2025–26.

**Ffigur 3:** Gwariant Cyfredol Net Cynghorau ar Ddigartrefedd a Llety Dros Dro, £000oedd




Ffynhonnell: Ffurflenni Sefyllfa Derfynol Refeniw/Cyfrif Refeniw Llywodraeth Cymru

55. Mae grantiau tai a digartrefedd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at y costau hyn ac mae cyllid o ffynonellau eraill yn cael ei ddefnyddio. Yn y flwyddyn ariannol hon, cafodd rhai o'r grantiau eu cynnwys yn y setliad, ac roedd croeso i hynny. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn y galw am y gwasanaethau hyn yn ddidrugaredd ac mae'r gwariant wedi cynyddu wythwaith dros gyfnod o 10 mlynedd. Mae hyn yn

sylweddol uwch na'r cynnydd yn y setliad cyffredinol a Threth y Cyngor, sy'n awgrymu bod gwasanaethau eraill wedi cael eu torri er mwyn eu hariannu.

56. Mae parhau i ryddhau carcharorion yn gynnar oherwydd bod carchardai'n orlawn yn anochel yn arwain at nifer sylweddol o bobl heb lety ar gael iddynt ar ôl eu rhyddhau. Mae hyn yn rhoi rhagor o bwysau ar dimau dewisiadau tai ac yn cynyddu'r galw am lety dros dro mewn sawl ardal. Gall yr anghenion cymhleth sydd yn aml yn gysylltiedig â charcharorion, yn ogystal ag eraill sy'n ddigartref (ac yn cysgu allan), ei gwneud yn fwy anodd dod o hyd i lety dros dro priodol, a all fod yn fwy costus hefyd, ac wrth i Gynghorau roi ystyriaeth i ddyletswyddau diogelu mewn perthynas ag anghenion pobl eraill, yn enwedig teuluoedd gyda phlant.

57. Mae pwysau ychwanegol o ran tai a galw a chostau cynyddol am lety dros dro hefyd yn amlwg mewn sawl ardal o ganlyniad i wahanol gynlluniau ymfudo a diogelwch dyngarol, yn cynnwys cystadleuaeth am eiddo yn y sector rhentu preifat ar draws Cymru o ganlyniad i ehangu'r ardal wasgaru ar gyfer ceiswyr lloches i ardal pob Cyngor, ac ymdrechion i geisio defnyddio llai ar westai. Mae'n anochel y bydd penderfyniad diweddar Llywodraeth y DU i gyflymu adolygiadau a lleihau nifer yr apeliadau o benderfyniadau lloches sydd wedi cronni hefyd yn arwain at fwy o bobl yn gadael llety sy'n cael ei ddarparu gan y Swyddfa Gartref ac yn ceisio cymorth gan Gynghorau i ddod o hyd i gartref, ac yn aml bydd arnynt angen llety dros dro cyn dod o hyd i gartref parhaol. Nid oes unrhyw gyllid ychwanegol gan y Swyddfa Gartref i liniaru'r pwysau cynyddol ar Gynghorau ar gyfer y gwaith hwn ac mae costau llety dros dro'n cynyddu'n gynt ac yn gynt.

58. Bydd y bil a gyhoeddwyd yn ddiweddar, Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru), sydd wrthi'n mynd drwy'r broses graffu yn y Senedd, hefyd yn rhoi pwysau ariannol pellach ar Gynghorau, pan fydd mewn grym, ac mae'n bwysig cynnal asesiad cadarn a thrylwyr pellach o oblygiadau ariannol yr holl gynigion deddfwriaethol, mewn partneriaeth yn unol â'r Cytundeb Partneriaeth, fel bod lefelau priodol o gyllid yn cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi cyflwyno unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn llwyddiannus. Mae gan Gynghorau bryderon nad yw'r Asesiad o'r Effaith Reoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn rhoi digon o sylw i'r pwysau ychwanegol y bydd Cynghorau'n ei wynebu.

59. Mae'r data diweddaraf yn dangos, er bod gostyngiad bach ond derbyniol iawn dros y 12 mis diwethaf, fod bron i 11,000 o bobl yn parhau i fod mewn llety dros dro. Daw hyn ar gost sylweddol i gyllidebau Cynghorau ac nid yw lefel y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, neu y mae modd ei hawlio'n ôl gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn cyd-fynd â'r cynnydd yn y galw. Mae'r adborth o'r arolwg a gynhaliwyd yn adlewyrchu gorwariant ar gyllidebau digartrefedd ac mae hyn yn bwysau ariannol cynyddol ar Gynghorau. Mae'r gyllideb Grant Cymorth Tai'n hollbwysig i gefnogi pobl ddigartref a'r rhai sydd mewn perygl o ddigartrefedd, gan gynnwys cyllid i gyrff trydydd sector, ac mae CLILC yn pwysleisio'r angen, ar y lleiaf, i gynnal y lefel bresennol o gyllid os nad oes cyllid ychwanegol ar gael.

60. Mae adeiladu mwy o gartrefi'n hanfodol i sicrhau bod gennym ddigon o dai i bawb sydd eu hangen, yn cynnwys yr aelwydydd hynny sy'n dod yn ddigartref neu sydd mewn tai sy'n anaddas. Mae'r Cynghorau hynny sydd â stoc tai'n rhoi rhaglenni adeiladu newydd uchelgeisiol ar waith ac yn ceisio caffael cartrefi presennol (sy'n aml yn gyn-eiddo Hawl i Brynu) i gynyddu nifer y cartrefi rhentu cymdeithasol sydd

ar gael. Mae costau cynyddol o ran tir, llafur a deunyddiau'n golygu bod y broses o adeiladau tai cyngor newydd sydd wir eu hangen wedi dod yn fwy costus – mae hyn yn bygwth hyfywedd llawer o gynlluniau adeiladu tai heb gymhorthdal cyfalaf cynyddol gan Lywodraeth Cymru.

61. Mae pob Cyngor hefyd yn gweithio gyda phartneriaid sy'n Landlord Cymdeithasol Cofrestredig i adeiladu cartrefi rhent cymdeithasol carbon-isel newydd. Mae'n bwysig sicrhau felly fod cyllid cyfalaf ar gael i gefnogi adeiladu tai cymdeithasol ar y cyflymder a'r raddfa mae eu hangen i leihau dibyniaeth ar lety dros dro a sicrhau y gellir diwallu anghenion tai dinasyddion.

62. Fodd bynnag, daeth yr adroddiad ar Dai Fforddiadwy ym mis Medi 2024 gan Archwilio Cymru i'r casgliad y bydd angen i Lywodraeth Cymru wario llawer mwy nag a gynlluniwyd i gyrraedd y targed o 20,000 o gartrefi cymdeithasol erbyn mis Mawrth 2026. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy gymhorthdal cyfalaf cynyddol i Gynghorau a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i gefnogi darparu rhagor o dai.

63. Mae Cynghorau'n cefnogi cyflawni amcanion tai allweddol Llywodraeth Cymru sydd yn y Rhaglen Lywodraethu, fodd bynnag, mae angen digon o gyllid i allu ei chyflawni'n llwyddiannus. Yn ogystal â'r materion uchod, mae pwysau ariannol arall ym maes tai yn deillio o ddiwygio'r drefn diogelwch adeiladau, bodloni'r Safon Ansawdd Tai Cymru ddiwygiedig, pwysau ar y gweithlu a llenwi unrhyw fylchau yn y gweithlu (er enghraifft adroddiad Archwilio Cymru ar Reoli Adeiladu) a'r uchelgeisiau mewn perthynas â datgarboneiddio mwy o gartrefi.

64. Mae gan landlordiaid cymdeithasol, yn cynnwys y Cynghorau hynny sydd â stoc dai, angen sicrwydd hirdymor mewn perthynas ag incwm rhent er mwyn gallu cynllunio'n effeithiol ar gyfer gwaith cynnal a chadw a gwella'r tai sydd ganddynt, a datblygu cartrefi newydd y mae mawr eu hangen. Mae Cynghorau wedi mynegi pryderon na fydd y safon rhenti a thaliadau gwasanaeth newydd arfaethedig i Gymru y mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori arni'n ddiweddar yn caniatáu i Gynghorau gynhyrchu digon o incwm i allu cyflawni'r uchelgeisiau i fuddsoddi yn y stoc sydd ganddynt, a datblygu cartrefi newydd y mae mawr eu hangen i'w rhentu'n gymdeithasol. Mae'n hanfodol bod unrhyw safon rhent cymdeithasol derfynol yn y dyfodol yn fforddiadwy i denantiaid ac yn rhoi sicrwydd o lefelau incwm digonol i landlordiaid yn y dyfodol er mwyn iddynt allu darparu gwasanaethau a thai newydd sy'n diwallu holl anghenion tenantiaid heddiw ac yn y dyfodol.

65. I leihau nifer y bobl sy'n dod yn ddigartref ac angen llety dros dro, mae angen i Gynghorau gael yr adnoddau llawn i gefnogi aelwydydd ac ymyrryd mewn ffyrdd sy'n atal digartrefedd yn y lle cyntaf. I ddarparu cartrefi i'r miloedd ar filoedd o bobl sydd ar restrau aros am dai ar draws Cymru, ac i roi cyfleoedd i'r rhai hynny mewn llety dros dro drud ac anfoddhaol i 'symud ymlaen' i lety parhaol sy'n addas a fforddiadwy, mae angen gweld cynnydd sylweddol a pharhaus o ran y rhaglenni datblygu sy'n darparu tai newydd ar gyfer Cynghorau a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Bydd hyn yn galw am gynnydd sylweddol o ran lefel y cymhorthdal cyfalaf gan Lywodraeth Cymru, fel y nodwyd yn yr adroddiad gan Archwilio Cymru ar Dai Fforddiadwy.

Enghraifft o arfer da:-
Datblygiad Eagleswell Road, Llanilltud Fawr, Cyngor Bro Morgannwg – Datblygiad newydd yn Eagleswell Road, Llanilltud Fawr

Maes Blaenoriaeth 4 – Datblygu Economaidd Rhanbarthol a Lleol

66. Mae twf economaidd cynaliadwy ar bob lefel ofodol wedi'i nodi fel ffordd allweddol i leihau'r galw ar wasanaethau cyhoeddus a chynhyrchu'r refeniw treth sydd ei angen i ddarparu'r gwasanaethau hyn gyda'r cyllid ychwanegol maent ei angen.

67. Gan hynny, mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth bennaf i greu amodau ar gyfer 'twf da'. Mae datblygu economaidd yn seiliedig ar 'le' yn gysyniad allweddol yn hyn o beth, gan gydnabod y dylai gwelliant mewn ardal roi ystyriaeth i'w heriau a'i chyfleoedd unigryw. Mae ymdrin â pholisi gyda'r un dull i bob sefyllfa'n llawer llai tebygol o lwyddo.

68. Mae gan Gynghorau rôl hollbwysig wrth ddatblygu lle. Maent yn dod â gwahanol wasanaethau ynghyd i gefnogi datblygu economaidd lleol a rhanbarthol. Yn ogystal â'u staff datblygu economaidd ac adfywio eu hunain, mae Cynghorau'n sefydlu ac yn rheoleiddio'r amodau a'r amgylchedd ar gyfer twf mewn sawl gwahanol ffordd. Mae ganddynt gyfrifoldebau ynghlwm â chludiant, cynllunio, mesurau amddiffyn rhag llifogydd, safonau masnach ac iechyd yr amgylchedd. Mae eu rôl nhw fel yr awdurdod addysg lleol, gyda chysylltiadau â sefydliadau addysg bellach ac uwch lleol, hefyd yn hollbwysig i ddatblygu gweithlu'r dyfodol.

69. Wrth i gasglu gwastraff newid yn gasglu ailgylchu a hyrwyddo Economi Gylchol, mae hyn yn creu cyfleoedd newydd am ddatblygu economaidd. Mae bron i £90 miliwn o gyllid Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pecynnu ar draws Cymru (ynghyd â chyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru) wedi bod yn adnodd ychwanegol derbyniol iawn i helpu i ddatblygu'r maes gwaith hwn.

70. Er hynny, mae llawer o wasanaethau ynghlwm â lleoedd wedi gweld toriadau cyllid sylweddol, wrth i gyfran y gwariant ar wasanaethau sydd ynghlwm â phobl gynyddu yn setliad pob Cyngor. O 2009/10 i 2022/23, roedd gwariant Cynghorau ar wasanaethau ar wahân i addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol wedi gostwng mwy na chwarter (wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant). Bu 32% o ostyngiad i briffyrdd a chludiant, a gostyngiad o 39% i Gynllunio. Bu hwb i ddatblygu economaidd o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ers 2022/23 ond mae ansicrwydd ynghylch y cyllid hwnnw y tu hwnt i fis Mawrth 2026. Gallai hynny olygu diwedd ar gymorth i dros 2,000 o swyddi ar hyd a lled Cymru a gostyngiad sylweddol yng ngallu Cynghorau i gefnogi datblygu economaidd ac adfywio ar gyfer lleoedd.

71. Mae cyfanswm y gwariant refeniw sydd wedi'i gyllidebu ar wasanaethau amgylcheddol, priffyrdd a chludiant, cynllunio a datblygu economaidd a chymunedol ynghyd yn £1.016 biliwn yn 2025/26, sydd ond yn 8.8% o gyfanswm gwariant Cynghorau.

72. Mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol hefyd yn parhau i gael eu heffeithio gan bwysau costau sy'n sylweddol uwch na chynnydd i'w cyllid craidd ac mae'r tri'n cario bylchau yn eu cyllidebau o tua £1 miliwn, sydd tua 15–20% o'u trosiant. Dyma ganlyniad cyfres o setliadau gwastad ar gyfer eu cyllidebau dros nifer o flynyddoedd, pan oedd chwyddiant yn uchel. Yn wahanol i sefydliadau Awdurdodau Lleol eraill, nid yw Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn gallu dewis gosod ardoll uwch, gan fod ardoll y Parciau'n seiliedig ar gyllid gan Lywodraeth Cymru. Nid oes hawl gan Awdurdodau'r Parciau i osod ardollau eraill 'chwaith, fel Ardoll ar Ymwelwyr. Gan hynny, mae'r tri'n canolbwyntio i raddau helaeth ar incwm

o ffynonellau eraill i lenwi’r bwlch hwn, fodd bynnag, mae’r gallu a’r cyfle i wneud hynny’n amrywio ar draws y tri Awdurdod ac mae’n annhebygol y bydd modd llenwi’r bwlch yn gyfan gwbl trwy gynhyrchu incwm ychwanegol yn unig.

73. Dros y tymor canolig i hir, gallai Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol orfod lleihau eu gwasanaethau’n sylweddol, a fydd yn cael effaith negyddol ar y ffordd mae pobl yn defnyddio a mwynhau’r Parciau Cenedlaethol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, bydd angen ystyried a fydd modd parhau â rhai gwasanaethau dros y tymor byr. I wynebu’r her hon, mae Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol yn gweithio gyda nifer o bartneriaid, yn enwedig Awdurdodau Lleol, ac fe allem ni wneud mwy mewn meysydd fel adfer natur, newid hinsawdd a defnyddio parciau ar gyfer canlyniadau presgripsiynu cymdeithasol, ond mae diffyg cyllid yn cyfyngu ar allu gwneud hynny.

74. Gall gwaith ar ddatblygu lleoedd fod yn benodol bwysig i fynd i’r afael ag anghyfartaledd economaidd mewn meysydd sy’n tanberfformio. Gan hynny, gall gwariant yn y meysydd gwasanaeth hyn fod yn bwysig o safbwynt atal. Gall leihau’r pwysau ar wasanaethau eraill Cynghorau (gan gefnogi darparu’r gwasanaethau hynny ar yr un pryd). Mae denu buddsoddiadau i fynd i’r afael â blaenoriaethau a chyfleoedd lleol yn ganolog i’r dull hwn o weithredu. Gall ymwneud â buddsoddi mewn tai, adfywio, isadeiledd, ynni glân, cyllid ar gyfer busnesau bach a chanolig, iechyd ac mewn gwasanaethau cyfalaf naturiol/ecosystemau.

75. Roedd y Gronfa Ffyniant Gyffredin a gyflwynwyd gan gyn-Lywodraeth y DU yn hwyluso’r hynny. Roedd hyblygrwydd y cynllun yn caniatáu i’r Cynghorau adfer eu gallu i weithredu ar ddatblygu economaidd a oedd wedi dirywio’n raddol dros y degawd blaenorol. Mae gallu defnyddio’r Gronfa ar gyfer anghenion a chyfleoedd lleol wedi arwain at nifer o enghreifftiau o ymyraethau llwyddiannus gan Gynghorau ar hyd a lled Cymru.

76. Mae modd gweld ambell enghraifft o ymyraethau a wnaed ynghlwm â lleoedd gan ddefnyddio’r Gronfa Ffyniant Gyffredin i’w gweld yma (mae enghreifftiau tebyg i’w gweld ar wefan unrhyw Gyngor):

Uchelgais Gogledd Cymru | Prosiectau’r Gronfa Ffyniant Gyffredin
Prifddinas-ranbarth Caerdydd – Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ac ar gyfer Caerdydd ei hun Prosiectau’r Gronfa Ffyniant Gyffredin a gefnogwyd yng Nghaerdydd a Chaerffili Prosiectau Cronfa Ffyniant Gyffredin Caerffili
Tyfu Canolbarth Cymru – Y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn hybu arloesedd a mentrau cymdeithasol
Rhanbarth Dinesig Bae Abertawe – Cymunedau a busnesau'n elwa o hwb ariannol gwerth miliynau o bunnoedd a Cymorth y Gronfa Ffyniant Gyffredin i Gastell-nedd Port Talbot

77. Enghraifft arall o’r modd y gall cydlynu ar gyfer lle penodol arwain at lwyddiant yw gwaith Cyngor Sir Ddinbych i wella canol tref Corwen (gweler y blwch isod). Yn yr achos hwn, defnyddiodd **Gronfa Ffyniant Bro** Llywodraeth flaenorol y DU. Enillodd y gwaith gwella hwn wobr gan Ystadau Cymru.

***Gwelliannau canol tref Corwen***
***Enw'r sefydliad:*** *Cyngor Sir Ddinbych*
***Sefydliadau partner:*** *Ymddiriedolaeth Rheilffordd Llangollen/Cadwyn Clwyd/Cygnor Tref Corwen*
***Disgrifiad bras:*** *Mae'r prosiect hwn ei hun yn cynnwys 4 is-brosiect sydd wedi'u cyflawni ar Stryd Fawr Corwen ac o'i hamgylch gyda'r nod o wella rhwydweithiau cyswllt i ymwelwyr, asedau canol y dref a'r parth cyhoeddus rhwng y rheilffordd dreftadaeth newydd a'r Stryd Fawr, gan greu a gwella'r pwynt mynediad i ymwelwyr i'r Safle Treftadaeth y Byd.*
***Argymhelliad a sylwadau'r Panel:***
*Prosiect amlochrog a oedd yn rhoi ymdeimlad cryf o gydweithio. Roedd yn cynnwys dull integredig o wella'r profiad i drigolion ac ymwelwyr ac yn cyfeirio at bolisïau allweddol fel Creu Lleoedd. Teimlai'r panel ei fod yn ehangach na phrosiectau adfywio traddodiadol gan ei fod yn cyfuno hygyrchedd, cysylltedd cymunedau, sefydlogrwydd economaidd a chefnogaeth gynhwysfawr i dreftadaeth leol. Teimlai'r Panel ei fod yn enghraifft dda o wella canol tref, hyd yn oed mewn oes o gynni ariannol, a gallai ysbrydoli eraill i wneud pethau tebyg. Roedd modd ei gopïo hefyd a dyma'r unig gais a oedd yn disgrifio rhwystrau a sut roedd goresgyn y rheiny drwy ddatrys problemau mewn partneriaeth.*

78. Mae potensial i adeiladu ar y sylfaen mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi'i gosod a cheisio ffynonellau eraill o gyllid hefyd, gan gynnwys cyllid buddsoddiadau. Er enghraifft, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi cymryd diddordeb cynyddol yn y syniad o fuddsoddi er mwyn effaith mewn lleoedd (gweler -£25 billion powered Wales Pension Partnership pool to deliver growth and jobs for Wales GOV.UK <https://www.gov.uk/government/news/25-billion-powered-wales-pension-partnership-pool-to-deliver-growth-and-jobs-for-wales>).

79. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd Cymru'n cael £211 miliwn am y tair blynedd nesaf, ar ôl i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ddod i ben fis Mawrth nesaf. Mae hynny'n 23% o gyfanswm dyraniad y DU. Fodd bynnag, mae eto angen egluro manylion sut y bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio a phwy fydd yn ei oruchwylio. Mae Llywodraeth Cymru'n credu y bydd rheolaeth yn dychwelyd iddi hi gan Lywodraeth y DU er bod Llywodraeth y DU, yn ôl y sôn, (drwy'r Swyddfa Gymreig) yn bwriadu parhau i chwarae rhan arwyddocaol. Mae swm y cyllid yr un fath ag ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, ond roedd hwnnw 40% yn is na 2024/25 a oedd, yn ei dro, yn is na'r hyn roedd Cymru'n ei gael yn flaenorol fel cyllid gan yr UE. Mae hynny'n pwysleisio pwysigrwydd edrych ar ffynonellau cyllid eraill, yn ogystal â sicrhau ei fod wedi'i integreiddio â chyllid Llywodraeth Cymru ei hun, fel y rhaglen Trawsnewid Trefi.

80. Mae Llefarwyr CLILC ar yr Economi wedi galw am flwyddyn bontio arall er mwyn i brosiectau a ariannwyd drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ac sy'n cyflawni canlyniadau da allu parhau. Efallai bod posibilrwydd o hynny'n dal i fod, ond mae'n dibynnu'n helaeth ar ganlyniad trafodaethau rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU. Mae Bwrdd Gweithredol CLILC wedi galw ar i'r trafodaethau hyn fod yn rhai tair

ffordd. Oherwydd bod gan Gynghorau lleol rôl allweddol o ran datblygu lleoedd, mae peidio â chynnwys Cynghorau hyd yma'n benderfyniad amheus. Mae'r ddwy Lywodraeth wedi ymrwymo i gynnwys llywodraeth leol yn y mater cyn gynted ag y gallant.

81. Mae'r ddwy Lywodraeth yn ymddangos yn awyddus i weld mwy o rôl i Gyd-bwyllgorau Corfforedig mewn ymdrechion datblygu economaidd. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Chyd-bwyllgorau Corfforedig ynglŷn â nifer o wahanol raglenni cyllid Llywodraeth y DU yn gysylltiedig â'i Chynllun Isadeiledd a'i Hamcanion Twf. Yn yr ystyr honno, y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yw'r cyrff sy'n cyfateb orau i'r Awdurdodau Strategol Corfforaethol sy'n trafod setliadau integredig gyda Llywodraeth y DU. Mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod â rôl strategol wrth drafod sut mae'r £211 miliwn o gyllid sydd i ddilyn y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael ei ddefnyddio ac mae hefyd yn cynllunio i ddatganoli grantiau cludiant i'r rhanbarthau.

82. Mae'n hollbwysig bod gwersi a ddysgwyd gyda'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, gan gynnwys nifer o ganlyniadau cadarnhaol, yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar ffyrdd o ymdrin â datblygu economaidd lleol a rhanbarthol yn y dyfodol. Os bydd Cynghorau'n colli cyllid maent wedi bod yn ei gael, gallai hynny wir danseilio eu gallu i hyrwyddo datblygu economaidd ac adfywio ar lefel leol a'i gefnogi ar lefel ranbarthol.

83. Mae gwybodaeth a chysylltiadau lleol yn hanfodol i lwyddiant datblygu economaidd, yn ogystal â gallu Cynghorau i gydlynu cefnogaeth ar draws eu hystod lawn o wasanaethau. Mae hyn yn pwysleisio mor bwysig yw lobïo i Gynghorau barhau i fod â rôl ganolog yn unrhyw raglen(ni) a threfniadau cyllid olynol.

Maes Blaenoriaeth 5 – Cyfalaf a Buddsoddi

84. Mewn llythyr i'r Trysorlys cyn yr adolygiad o wariant, fe wnaethom dynnu sylw at yr effaith mae buddsoddi cyfalaf yn ei chael ar economïau lleol a gall buddsoddi ar gyfer lleoedd hefyd fod â rôl allweddol, fel rydym wedi'i egluro yn yr adran flaenorol. Mae pwysigrwydd buddsoddi parhaus gan y sector cyhoeddus ar gyfer twf economaidd hirdymor wedi cael ei bwysleisio'n ddiweddar gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.[4] Ar draws rhaglenni cyfalaf Cynghorau, rydym yn gweld cynnydd yn y costau sydd wedi'u cymeradwyo ar y cam dichonoldeb, i gam dylunio a datblygu prosiectau cyfalaf, oherwydd y cyfraddau chwyddiant presennol ac ansefydlogrwydd y farchnad adeiladu. Mae'r ymatebion i'r arolwg yn dangos, gydag ond ychydig neu ddim cyllid ychwanegol ar gael, y bu llawer o ail-flaenoriaethu rhwng cynlluniau a lleihau lle bo modd.

85. Er bod chwyddiant wedi dychwelyd i lefelau mwy arferol, mae costau wedi aros ar y lefelau uwch ond nid yw cyllid cyfalaf craidd wedi cynyddu gyda chwyddiant, a'r canlyniad yw bod cyllidebau cyfalaf craidd yn aros yr un fath. Mae cynnydd mewn costau ar draws y rhaglen gyfan, sy'n golygu nad yw rhai cynlluniau'n fforddiadwy ac/neu'n rhoi gwerth am arian. Nid yw Arian Cyfalaf Cyffredinol yn cynyddu ar yr un raddfa â chwyddiant adeiladu cyffredinol[5].

86. Nid oes diffyg prosiectau sy'n chwilio am gyllid ychwanegol mewn Cynghorau. O ran ysgolion, roedd y prosiect Cymunedau Dysgu Cynaliadwy wedi arwain at fuddsoddiadau mawr mewn adeiladau newydd a gwaith adnewyddu. O ran darpariaeth ADY, mae angen unedau arbenigol a chanolfannau adnoddau, ac mae angen buddsoddi yn ychwanegol yn yr holl adeiladau newydd er mwyn iddynt fod yn effeithlon a chyd-fynd â thargedau sero net. Ym maes gofal cymdeithasol, mae angen ehangu a moderneiddio cyfleusterau preswyl ac mae angen buddsoddi mewn darpariaeth byw â chymorth hefyd. Mae meysydd gwasanaeth eraill lle mae angen cyllid ychwanegol yn amrywio o uwchraddio fflydoedd cerbydau a rhoi wyneb newydd ar ffyrdd ym maes Cludiant a Phriffyrdd[6], i uwchraddio llety dros dro ar gyfer Tai a Chymorth Digartrefedd.

87. Nid Awdurdodau Lleol yn unig sy'n teimlo pwysau ar gyfalaf, ac un Awdurdod Tân yn nodi bod amcangyfrif y bydd £3 miliwn o gostau refeniw i'w rhaglen drawsnewid yn 2026/27 a thua £7.7 miliwn o gostau cyfalaf a fydd yn rhoi pwysau sylweddol ar eu sefyllfa ariannol. Nid yw'r costau hyn yn cynnwys angen ar unwaith i ddigideiddio llawer o brosesau'r gwasanaeth ac ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI).

88. Fodd bynnag, mae ymdeimlad o gyfyngu ar gyfalaf. Lle bo modd, mae rhaglenni'n cael eu hailbroffilio, ond nid yw hyn yn datrys y pwysau ar y gyllideb. Efallai y bydd yn ei ledaenu dros gyfnod hirach a allai yn ei dro arwain at gostau hyd yn oed yn uwch. Mae sawl Awdurdod yn gweld bod contractwyr wedi dod yn fwy parod i

---

[4] Discussion paper No.5: Public investment and potential output (obr.uk)

[5] Mynegeion Prisiau Allbwn Adeiladu y SYG o fis Ebrill 2019 i fis Mehefin 2024, y DU. Crynodeb. Mynegai yr holl waith adeiladu (gwaith newydd ac atgyweirio a chynnal a chadw)

[6] Mae Cynghorau wedi bod yn falch iawn o weld Menter Benthyca Llywodraeth Leol y cytunwyd arni gyda llywodraeth leol er mwyn galluogi gwaith i roi wyneb newydd ar ffyrdd dros 2025/26 a 2026/27. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cymorth refeniw cylchol, sy'n galluogi buddsoddi tua £120 miliwn eleni a'r flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig dod o hyd i ffyrdd o gynnal y lefelau hynny o fuddsoddi neu fe fydd cyflwr y priffyrdd yn dechrau dirywio eto dros amser.

wrthwynebu mewn perthynas â chontractau a chynnydd costau oherwydd eu bod yn gweithio i brisiau tynn iawn gan isgontractwyr a chyflenwyr. Gall hyn effeithio ar y prisiau terfynol ar gyfer cynlluniau. Mae materion brys yn cael blaenoriaeth ar y materion pwysig a gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni ynghlwm ag ystadau a phriffyrdd yn cael blaenoriaeth dros brosiectau strategol oherwydd cyfyngu ar gyfalaf.

89. Gan fod pwysau ar y cyllidebau refeniw, mae costau'n cael eu hadolygu a'u herio o hyd o ran yr hyn mae modd ei gyfalafu. Er hynny, heb gyllid cyfalaf ychwanegol, mae'n arwain at gyllideb gyfalaf lai i'w gwario ar gyflawni cynlluniau. Yn yr un modd, mae unrhyw gyllid refeniw blynyddol a oedd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r rhaglen gyfalaf wedi cael ei dynnu.

90. Mae cyfraddau llog y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus wedi gostwng ond yn parhau i gael effaith ar gynlluniau sydd wedi'u hariannu drwy Fenthyca Darbodus, o ran yr achosion busnes ar gyfer cyfnodau benthyca a thalu'n ôl (e.e. cynlluniau buddsoddi i arbed) ac effaith costau llog ar y gyllideb refeniw.

91. Daw hyn ar adeg pan fydd angen adnoddau ychwanegol sylweddol i fuddsoddi mewn pedwar prif faes:

- isadeiledd digidol i wella gwasanaethau a chynhyrchiant, er enghraifft Cyswllt Gofal
- buddsoddi mewn gofal preswyl i gefnogi'r *Agenda Dileu Elw*
- buddsoddi mewn tai ar gyfer Cynghorau sy'n landlordiaid cymdeithasol.
- datgarboneiddio ystadau[7] ac isadeiledd Cerbydau Trydan i gefnogi'r targed sero net

92. Felly, mae cyfleoedd 'buddsoddi i arbed' mawr yn cyd-fynd â'r meysydd blaenoriaeth yn yr adroddiad hwn. Gellid cyflymu'r rhain pe bai mwy o arian cyfalaf ar gael.

---

[7] Mae gwaith cychwynnol gan Bartneriaethau Lleol yn awgrymu y bydd angen dros £1 biliwn i dalu'r gost gyfalaf o drin adeiladau Cynghorau ar draws Cymru os bydd mesurau datgarboneiddio, inswleiddio neu ynni adnewyddadwy yn cael eu gosod. Mae Partneriaethau Lleol yn nodi bod hwn yn <u>danamcangyfrif</u> o gyfanswm y costau oherwydd:

(1) mae eu ffigyrau costau cyfalaf yn seiliedig ar fanylion arwynebedd llawr, a ddarparwyd ar gyfer 83% o'r adeiladau a adroddwyd yn unig

(2) maent yn nodi nad ydynt wedi cynnwys costau eraill y bydd yn rhaid eu talu ynghlwm â'r prosiect, ac fe allai hyn ychwanegu <u>30–40%</u> at gyfanswm y costau cyflawni (e.e. arolygon, dylunio, arian wrth gefn). Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i alluogi pob Cyngor i ddatblygu darlun mwy cywir.

## Casgliad

93. Mewn datganiad i'r Senedd ar 1 Gorffennaf, fe wnaeth y Gwir Anrh. Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, ddatgan ei fwriad am gyllideb am un flwyddyn, i gael ei chyhoeddi ym mis Hydref. Dan y cynlluniau presennol, bydd hyn yn cynyddu cyllidebau adrannol yr un ganran â chwyddiant ac yn creu cronfa o gyllid heb ei ddyrannu a fydd ar gael i Lywodraeth nesaf Cymru. Trafodwyd hyn yn ein cyfarfod gyda'r ddau Ysgrifennydd Cabinet ar 15 Gorffennaf pan gawsom gyfarfod yn yr Is-grŵp Cyllid.

94. Byddai'r canlyniad hwn yn eithriadol o niweidiol i wasanaethau lleol. Mae cyllideb dreigl ar 2% yn risg enfawr i lywodraeth leol, a hynny yng nghyd-destun ein pwysau ariannol ein hunain ac mae'r drefn hon yn peri pryder sylweddol.

95. Byddai'r sefyllfa ddeddfwriaethol yn sgil methiant dan adran 127 o Ddeddf Llywodraeth Cymru hyd yn oed yn waeth a byddai'n dra thrychinebus o safbwynt holl wasanaethau cyhoeddus Cymru, ac fe wyddoch fod gan Gynghorau - yn wahanol i rannau eraill o'r sector cyhoeddus - ddyletswydd gyfreithiol i osod cyllidebau cytbwys erbyn 11 Mawrth 2026.

96. Byddai cyllideb dreigl yn golygu y byddai'n rhaid i Gynghorau baratoi am gyfuniad o gynnydd afresymol i Dreth y Cyngor, toriadau i wasanaethau a/neu ddiswyddiadau i liniaru'r risg o gylchau sylweddol yn eu cyllidebau, a gallai hynny oll niweidio ein cymunedau lleol.

97. Mae canlyniadau llawn yr arolwg gan Drysoryddion gennym ni bellach, a'r rheiny'n dangos bod darlun clir yn dod i'r amlwg o chwyddiant a galw di-baid – rydym ni'n amcangyfrif ar hyn o bryd y bydd hyn tua £560 miliwn yn 2026–27. Mae hyn yn uwch na'r disgwyl ac yn deillio yn bennaf o alw a chostau uwch ym maes addysg a gofal cymdeithasol. Mae'n cadarnhau bod pwysau o tua 6.8% o wariant refeniw net, sy'n gofyn am gynnydd o tua 9% i'r setliad i lenwi'r bwlch yn llwyr. Ar ben hynny, mae amcangyfrif o orwariant/pwysau ychwanegol yn ystod y flwyddyn o £184 miliwn sy'n gofyn am benderfyniadau anodd ar unwaith yn y flwyddyn ariannol hon.

98. Mae posib' amcangyfrif y bwlch yn y gyllideb a'i effaith dan nifer o senarios sydd i'w gweld isod. Mae'r lefelau o Dreth y Cyngor isod yn adlewyrchu beth fyddai ei angen i lenwi'r bylchau cyllidebol:

| Cynnydd i'r setliad | Bwlch cyllidebol (£m) | Cyfanswm cynnydd i Dreth y Cyngor (%) | Toriadau swyddi cyfatebol |
|---|---|---|---|
| 2.0% neu £125m | £436m | 22% | 14,000 |
| 3.0% neu £187m | £373m | 19% | 12,000 |
| 4.0% neu £249m | £311m | 15% | 10,000 |
| 5.0% neu £312m | £249m | 12% | 8,000 |
| 7.0% neu £437m | £124m | 6% | 4,000 |
| 9.0% neu £560m | 0 | 0 | 0 |

99. I grynhoi, mae chwyddiant gwasanaethau ar gyfer llywodraeth leol 4.8% yn uwch na'r amcangyfrifon chwyddiant sy'n cael eu derbyn, felly mae cynnydd o 2% yn her eithriadol. Bydd Cynghorau'n parhau i wneud arbedion effeithlonrwydd ar draws pob maes gwasanaeth lle bo modd, ond bydd y cyfuniad o gynnydd i Dreth y Cyngor, toriadau i wasanaethau a diswyddiadau'n anodd ac yn cael effaith ar ein

staff ac ein cymunedau. Mae’n haws ymdopi â setliadau o 4% a mwy ond byddai hynny’n parhau i olygu bod rhaid i Gynghorau wneud penderfyniadau anodd.

100. Rydym yn falch o weld bod Llywodraeth Cymru eisiau gwarchod gwasanaethau lleol ac yn croesawu’r dull partneriaeth i ffurfio perthynas newydd o hyder rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol. Mae’r berthynas waith agos a ddatblygodd rhyngom yn y blynyddoedd diweddar wedi bod o fudd i bawb ond mae pwysau ariannol heb eu hariannu’n peri pryder mawr i Gynghorau ac o ran ein gallu ni i barhau i gyflawni ar gyfer pobl Cymru. Rydym yn ymrwymo i barhau i weithio mewn partneriaeth er mwyn diogelu ein blaenoriaethau cyffredin a gwarchod gwasanaethau ac ein cymunedau rhag effeithiau gwaethaf y stormydd economaidd sydd i ddod.

---

**Cliriwyd gan:** Y Cynghorydd Anthony Hunt, Llefarydd CLlLC ar Gyllid

**Awduron:** Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau
Nathan Gardner, Rheolwr Cyllid

**Rhif ffôn:** [redacted]

# Awdurdodau unedol, pwysau ariannol disgwyliedig, 2026–27 i 2028–29, £000oedd

| | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 |
|---|---|---|---|
| **A. Ynghlwm ag Awdurdodau Lleol (ac eithrio ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol)** | | | |
| Pwysau chwyddiant cyflogau | 76,808 | 68,386 | 73,059 |
| Pwysau chwyddiant ar wahân i gyflogau | 37,774 | 34,446 | 34,480 |
| Chwyddiant ffioedd/tâl a godir (positif) | - 2,779 | - 2,627 | - 2,538 |
| **Pwysau chwyddiant ALl (aros yn yr unfan)** | 111,803 | 100,204 | 105,001 |
| **Pwysau cyllidebol** | | | |
| Pwysau ynghlwm â galw (ADY) | 42,229 | 27,116 | 25,490 |
| Pwysau ynghlwm â galw (ar wahân i ADY, yn cynnwys PRS) | 18,079 | 14,928 | 16,458 |
| Pwysau ariannu cyfalaf | 3,216 | 890 | 257 |
| Gostyngiad i grantiau penodol | 5,423 | 2,489 | 1,513 |
| Blaenoriaethau lleol | 34,542 | 24,389 | 30,227 |
| Arall | 7,900 | 100 | 100 |
| **Pwysau cyllidebol ALl** | 111,388 | 69,912 | 74,044 |
| **Cyfanswm ynghlwm ag ALl** | **223,191** | **170,116** | **179,045** |
| **B. Ysgolion** | | | |
| Pwysau chwyddiant cyflogau | 84,074 | 80,649 | 85,746 |
| Pwysau chwyddiant ar wahân i gyflogau | 5,755 | 5,526 | 5,671 |
| Chwyddiant ffioedd/tâl a godir (positif) | 691 | 324 | 335 |
| **Pwysau chwyddiant (aros yn yr unfan)** | 90,520 | 86,499 | 91,753 |
| **Pwysau cyllidebol** | | | |
| Pwysau ynghlwm â galw (ADY) | 28,663 | 18,942 | 19,957 |
| Pwysau ynghlwm â galw (ar wahân i ADY, yn cynnwys PRS) | 7,460 | 1,502 | 3,458 |
| Pwysau ariannu cyfalaf | 1,233 | - 389 | 35 |
| Gostyngiad i grantiau penodol | 838 | 75 | 75 |
| Blaenoriaethau lleol | 228 | 175 | 758 |
| Arall | 7,781 | 8,112 | 6,193 |
| **Cyfanswm Pwysau Cyllidebol Ysgolion** | 46,203 | 28,417 | 30,476 |
| **Cyfanswm Ysgolion** | **136,723** | **114,916** | **122,228** |

## Awdurdodau unedol, pwysau ariannol disgwyliedig, 2026–27 i 2028–29, £000oedd (parhad)

| | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 |
|---|---|---|---|
| **C. Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | |
| Pwysau chwyddiant cyflogau | 23,119 | 22,902 | 25,737 |
| Pwysau Costau Comisiynu - Oedolion | 65,343 | 59,405 | 64,586 |
| Pwysau Costau Comisiynu - Plant | 16,148 | 15,690 | 16,413 |
| Pwysau chwyddiant ar wahân i gyflogau | 22,173 | 24,339 | 29,676 |
| Chwyddiant ffioedd/tâl a godir (positif) | - 1,222 | - 1,330 | - 1,348 |
| **Pwysau chwyddiant (aros yn yr unfan)** | 125,561 | 121,006 | 135,063 |
| **Pwysau cyllidebol** | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | |
| Gofal Cartref (yn cynnwys byw â chymorth) | 13,266 | 15,586 | 16,804 |
| Lleoliadau Preswyl | 7,185 | 7,998 | 6,379 |
| Arall | 17,167 | 17,379 | 19,849 |
| **Gwasanaethau Plant** | | | |
| Gofal Cartref | 75 | 75 | 75 |
| Lleoliadau Preswyl | 24,007 | 24,319 | 23,877 |
| Gofal Maeth | 875 | 875 | 775 |
| Arall | 7,813 | 4,243 | 4,107 |
| b. Pwysau ariannu cyfalaf | - | - | - |
| c. Gostyngiad i grantiau penodol | 1,477 | 5,157 | 1,672 |
| d. Blaenoriaethau lleol | 1,840 | - | - |
| e. Arall | 1,250 | 4,306 | 2,450 |
| **Cyfanswm Pwysau Cyllidebol y GC** | 74,955 | 79,938 | 75,987 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cymdeithasol** | **200,516** | **200,944** | **211,051** |
| **Cyfanswm Pwysau (A+B+C)** | **560,430** | **485,976** | **512,324** |

# ATODLEN II

## Awdurdodau unedol, pwysau ariannol disgwyliedig yn ystod y flwyddyn (2025–26)

| | 2025-26 |
|---|---|
| **A. Ynghlwm ag Awdurdodau Lleol (ac eithrio ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol)** | |
| Pwysau chwyddiant cyflogau | 10,176 |
| Pwysau chwyddiant ar wahân i gyflogau | 5,388 |
| **Pwysau chwyddiant (aros yn yr unfan)** | 15,564 |
| **Pwysau ariannol** | |
| Pwysau ynghlwm â galw | 17,016 |
| Pwysau ariannu cyfalaf | 1,700 |
| Gostyngiad i grantiau penodol | 160 |
| Blaenoriaethau lleol | 2,563 |
| Arall | 7,185 |
| **Pwysau Cyllidebol ALl** | 28,624 |
| **Cyfanswm ynghlwm ag ALl** | 44,188 |
| **B. Ysgolion** | |
| Pwysau chwyddiant cyflogau | 6,595 |
| Pwysau chwyddiant ar wahân i gyflogau | 1,004 |
| Chwyddiant ffioedd/tâl a godir (positif) | - |
| **Pwysau chwyddiant ysgolion (aros yn yr unfan)** | 7,599 |
| **Pwysau ariannol** | |
| Pwysau ynghlwm a galw | 36,969 |
| Pwysau ariannu cyfalaf | - |
| Gostyngiad i grantiau penodol | - |
| Blaenoriaethau lleol | - |
| Arall | 26,257 |
| **Cyfanswm Pwysau Cyllidebol Ysgolion** | 63,226 |
| **Cyfanswm Ysgolion** | 70,825 |

## Awdurdodau unedol, pwysau ariannol disgwyliedig yn ystod y flwyddyn (2025–26), £000oedd (parhad)

| | 2025-26 |
|---|---|
| **C. Gwasanaethau Cymdeithasol** | |
| Pwysau chwyddiant cyflogau | 1,901 |
| Pwysau Costau Comisiynu - Oedolion | 4,943 |
| Pwysau Costau Comisiynu - Plant | 3,293 |
| Pwysau chwyddiant ar wahân i gyflogau | 1,111 |
| **Pwysau chwyddiant (aros yn yr unfan)** | 11,248 |
| **Pwysau ariannol** | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | |
| Gofal Cartref (yn cynnwys byw â chymorth) | 16,648 |
| Lleoliadau Preswyl | 7,036 |
| Arall | 987 |
| **Gwasanaethau Plant** | |
| Gofal Cartref | 550 |
| Lleoliadau Preswyl | 21,364 |
| Gofal Maeth | 560 |
| Arall | 8,171 |
| **Pwysau Arall** | |
| Pwysau ariannu cyfalaf | 900 |
| Gostyngiad i grantiau penodol | - |
| Blaenoriaethau lleol | 1,790 |
| Arall | - |
| **Cyfanswm Pwysau Cyllidebol Gwasanaethau Cymdeithasol** | 58,006 |
| **Cyfanswm y pwysau ariannol disgwyliedig (A+B+C)** | 184,267 |